


NetworkRail

# Rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr

## Cynllun Cyflenwi Cyfnod Rheoli 7

Mawrth 2024

Dros Reilffordd Well

Cymru a Gorllewin Lloegr

# Cynnwys


Rhagair ... 1

Ein cynllun ar gyfer 2024-29 ar un dudalen ... 3

Pwy ydym ni ... 4

Ein strategaeth a'n canlyniadau ... 6

- Mae ein rheilffordd yn ddiogel a dibynadwy bob amser ... 8
- Yn cyflenwi gwasanaeth cwsmeriaid gwych yn gyson i bawb ... 17
- Rydym yn dîm amrywiol sy'n malio am ein gilydd ac am y cymunedau a wasanaethwn ... 19
- Rydym yn buddsoddi i roi cyfleoedd gwell i'n cymunedau ... 23
- Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni gwerth am arian ym mhob peth a wnawn ... 25
- Yn sicrhau ein rheilffordd yw'r ffordd wyrddach i bobl a nwyddau deithio ... 28

Sut yr ydym wedi datblygu ein cynlluniau ... 31

- Cyflwyniad ... 31
- Ein dull cynllunio ailadroddol ... 31
- Ymgysylltu â rhanddeiliaid ... 33
- Rheoli asedau ... 35
- Gweithrediadau a chymorth ... 38
  - Gweithrediadau ... 38
  - Cymorth ... 39
- Incwm ... 40
- Crynodeb ariannol ... 41

Risgiau a chyfleoedd ... 41

Llywodraethu a sicrwydd ... 45

Gwaith cyflenwi ar gyfer y flwyddyn i ddod (2024/25) ... 47




Cymru a Gorllewin Lloegr

# Rhagair

Ein diben yw cyflenwi'r rheilffordd orau a mwyaf diogel i'n teithwyr, defnyddwyr trenau nwyddau, ein cymunedau lleol a rhanddeiliaid. Mae'r cyfrifoldeb hwn yn destun balchder mawr inni.

Rydym yn ymgymryd â gwaith sylweddol trwy gydol Cyfnod Rheoli 7 (1 Ebrill 2024 – 31 Mawrth 2029) er mwyn gwella'r rheilffordd bob blwyddyn ac adeiladu ar y cyflawniadau a wnaethom yn ystod Cyfnod Rheoli 6: yn ystod y pum mlynedd ddiwethaf, rydym wedi cefnogi'r broses o gyflwyno trenau newydd a rhoi ar waith yn llwyddiannus llinell Elizabeth a gwelliannau i amserlenni, wedi rhoi cymorth hanfodol i gadw Prydain yn symud yn ystod y pandemig, ac wedi rhagori ar ein targed effeithlonrwydd.

Fodd bynnag, gwyddom nad ydym wedi cyrraedd ein disgwyliadau ni, na disgwyliadau ein rhanddeiliaid, o ran cyflenwi gwasanaethau trên prydlon a dibynadwy. Yn ystod Cyfnod Rheoli 7, byddwn yn canolbwyntio'n benderfynol ar gyflenwi gwell wasanaeth i deithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau. Mae Prosiect Brunel yn rhan allweddol o'r gwaith i wella perfformiad ein gwasanaethau trên.

Gan wynebu'r her hwn, ac o gofio'r cyd-destun a weithredwn ynddo sy'n newid yn economaidd, yn wleidyddol ac yn gymdeithasol, rydym yn benderfynol o wneud gwelliannau'n gyflymach ac yn fwy llym. Mae angen inni fod yn fwy agored i ddulliau newydd o weithio, gan weithredu'n gynyddol fel un tîm gyda'n partneriaid yn y diwydiant. Byddwn yn ceisio sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd, dileu cymhlethdod a biwrocratiaeth a chanolbwyntio ar fentrau sy'n cyflawni'r gwerth gorau i'n bobl ni, ein cwsmeriaid, rhanddeiliaid ac arianwyr. Byddwn yn gweithredu busnes symlach, gwell a gwyrddach yn ystod Cyfnod Rheoli 7, er mwyn i bobl ddewis ein rheilffordd ni yn y lle cyntaf i deithio'n ddiogel ac yn ddibynadwy.

Ymddiriedwyd ynom i wario £5 biliwn yn ystod Cyfnod Rheoli 7, yn buddsoddi i wella perfformiad gwasanaethau trên, parhau i ddarparu rheilffordd ddiogel, gwneud cynnydd sylweddol i leihau effaith carbon ein gweithgareddau, datblygu ein pobl a gwella eu hymgysylltiad, buddsoddi mewn gwella gwybodaeth i deithwyr yn y gorsafoedd a reolir gennym, gwella'n ffyrdd o ymdopi â'r tywydd a bioamrywiaeth, a chefnogi'r twf o draffig nwyddau ar ein rhwydwaith; hyn oll tra'n lleihau costau rhedeg y rheilffordd dros 8 % yn ystod Cyfnod Rheoli 7.

Mae ein rheilffordd yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi cymunedau a thwf economaidd ar draws ein rhanbarth. Rydym yn cefnogi'r Adran Drafnidiaeth i ddeall y cyfleoedd mae Rhwydwaith y Gogledd yn eu cynnig i'n rhanbarth ni ac yn gweithio'n agos â Thrafnidiaeth Cymru wrth iddynt gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Ynghyd â'n partneriaid yn y diwydiant, rydym yn cydweithredu â chwmni HS2 Limited ar ei waith yn adeiladu cyfnewidfa newydd HS2 / Prif Linell Great Western yn Old Oak Common, ac i gyd-leihau'r effaith ar berfformiad gwasanaethau trên ar ein llwybr gorllewinol.



Mae ein cynlluniau ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 yn cydnabod yr heriau ariannol a achosir gan y lefelau chwyddiant presennol, a arweiniodd at benderfyniadau anodd. Fodd bynnag, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar berfformiad trenau fel ein prif flaenoriaeth. Er yn heriol, mae Cyfnod Rheoli 7 yn cynrychioli cyfle arwyddocaol i wneud gwahaniaeth i fywydau beunyddiol miliynau o bobl drwy gysylltu cymunedau a hybu twf economaidd.

Yn ystod Cyfnod Rheoli 7, rydym yn newid ein rhanbarth i gyflenwi rheilffordd well i'r cwsmeriaid a'r cymunedau a wasanaethwn yn rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr.

Rob Cairns
Rheolwr Gyfarwyddwr rhanbarthol interim, Rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr

# Ein cynllun ar gyfer 2024-29 ar un dudalen

| Ein canlyniadau | Ein hymrwymiadau |
|---|---|
| Mae ein rheilffordd yn ddiogel a dibynadwy bob amser. | Gwelliant o **27%** yn niogelwch y gweithlu<br>Gwelliant o **4%** yn nifer y trenau sydd ar amser<br>**25%** yn llai o drenau i deithwyr yn cael eu canslo<br>**51%** yn llai o drenau nwyddau'n cael eu canslo<br>**6.9%** yn fwy o wasanaethau nwyddau |
| Yn cyflenwi gwasanaeth cwsmeriaid gwych yn gyson i bawb. | **2%** o welliant ym moddhad teithwyr |
| Rydym yn dîm amrywiol sy'n malio am ein gilydd ac am y cymunedau a wasanaethwn. | **6%** o welliant yn y broses o ymgysylltu â chydweithwyr |
| Rydym yn buddsoddi i roi cyfleoedd gwell i'n cymunedau. | Yn cefnogi'r Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol drwy fuddsoddi yn y rheilffordd |
| Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni gwerth am arian ym mhob peth a wnawn. | Cyflawni arbedion effeithlonrwydd gwerth mwy na **£490 miliwn** |
| Yn sicrhau ein rheilffordd yw'r ffordd wyrddach i bobl a nwyddau deithio. | Lleihau allyriadau carbon **21%**<br>Gwella bioamrywiaeth **4%** |


**£5.2biliwn** o wariant

Arweiniwyd gan y farchnad, llywiwyd gan ymgysylltu â rhanddeiliaid

- **£0.7 biliwn** ar weithrediadau
- **£0.3 biliwn** ar gymorth
- **£1.6 biliwn** ar gynnal a chadw
- **£2.6 biliwn** ar adnewyddu

*Y Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd i gadarnhau canlyniadau perfformiad i deithwyr, gweler tudalen 13*

# Pwy ydym ni




Ni yw rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr, un o bum rhanbarth Network Rail. Yn cysylltu dwy wlad a dwy brifddinas, mae rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr yn gwasanaethu pobl, busnesau a chymunedau ledled Cymru a'r Gororau, Swydd Rydychen a Dyffryn Tafwys, gorllewin Lloegr a phenrhyn de orllewin Lloegr.

Rydym yn cludo cymudwyr i hybiau cyflogaeth allweddol gan gynnwys Llundain, Caerdydd, Bryste, Birmingham, Manceinion a Lerpwl. Rydym yn gwasanaethu'n uniongyrchol Llundain Heathrow, maes awyr rhyngwladol prysuraf Ewrop ac yn cynnig cysylltiadau i feysydd awyr Caerdydd, Bryste, Birmingham, Manceinion, a Llundain Gatwick.

Rydym yn cefnogi hamdden a thwristiaeth yn yr holl ardaloedd hyn ac yn cefnogi gwasanaethau nwyddau hanfodol, ac agregau'n arbennig, gan symud miliynau o dunelli o nwyddau bob blwyddyn.

Rydym yn cyfrannu mwy na £300 miliwn yn uniongyrchol i'r economi bob blwyddyn, ochr yn ochr â budd economaidd cymdeithasol ehangach cysylltedd y rheilffordd, sy'n werth o leiaf £3.4 biliwn yn flynyddol yng Nghymru a de orllewin Lloegr[1]. Cefnogwn wastatáu'r economi trwy gysylltu cymunedau â chyflogaeth a gweithgareddau hamdden: mae'r rheilffyrdd yn cefnogi oddeutu 71,000 o swyddi yng Nghymru a de orllewin Lloegr.

Mae dau lwybr yn ein rhanbarth ni: Cymru a'r Gororau, a Gorllewin Lloegr, sy'n cyflawni gweithrediadau a gwaith cynnal a chadw diogel, effeithiol ac effeithlon. Cânt eu cefnogi gan ein tîm Cyflawni Cyfalaf ar gyfer adnewyddu seilwaith, a gan ein swyddogaethau busnes, cleientiaid

- Mae 115.9 miliwn o deithwyr yn teithio trwy ranbarth Cymru a Gorllewin Lloegr bob blwyddyn (2022/23)
- Mae 5,000 o gyflogeion yn gweithio ar lwybrau Cymru a Gorllewin Lloegr
- Mae 453 o orsafoedd yn gwasanaethu teithwyr yng Nghymru, y Gororau a Gorllewin Lloegr
- 2,700+ o filltiroedd o drac
- Mwy na 3,540 o wasanaethau i deithwyr a threnau nwyddau bob dydd
- Rydym yn rheoli a chynnal 5,841 o bontydd, 1,750 o groesfannau gwastad, a mwy na 4,500 o signalau
- Yn cefnogi bron 800 o drenau nwyddau bob wythnos, yn symud mwy na 500,000 o dunelli o nwyddau, deunyddiau a gwastraff

[1] Cyfraniad economaidd uniongyrchol wedi'i fesur yn ôl cynnyrch domestig gros, ffynhonnell: dadansoddiad NR. Cyfraniad economaidd cymdeithasol wedi'i fesur yn ôl ychwanegiad gwerth gros, ffynhonnell: The Economic Contribution of UK Rail, Oxford Economics, Medi 2021

a thechnegol. Gyda'n gilydd, rydym yn canolbwyntio ar roi'r teithiwr yn gyntaf er mwyn cynnig rheilffordd ddiogel a dibynadwy sy'n perfformio'n dda bob dydd.

Rydym yn gweithio'n agos â'n partneriaid yn y diwydiant: yn cefnogi'r gwaith o gyflawni gweledigaeth uchelgeisiol Trafnidiaeth Cymru i drawsnewid y rheilffordd yng Nghymru a'r Gororau, a gweithio gyda Transport for London a Great Western Railway (GWR) i ddarparu gwasanaethau dibynadwy ar linell Elizabeth a ledled ein rhanbarth.

# Ein strategaeth a'n canlyniadau

Mae ein strategaeth yn ymwneud â chyflawni'r canlyniadau gorau o ran gwerth a gwasanaeth i deithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau. Rydym yn defnyddio'n hadnoddau a sgiliau ac yn canolbwyntio i ddatblygu a chyflawni gwasanaethau trên sy'n perfformio'n well yn gynaliadwy ac am y gwerth economaidd gorau. Yn ystod Cyfnod Rheoli 7, byddwn yn datganoli mwy o gyfrifoldeb i dimau rheilffordd lleol ar ein dau lwybr, yn galluogi rheilffordd symlach a gwell sy'n cyflawni'r gwerth mwyaf posibl i'w holl randdeiliaid.

Aliniasom ein busnes i gyflawni'r canlyniadau y mae pobl yn eu gwerthfawrogi mwyaf gan ein rheilffordd. Seiliwyd y canlyniadau hyn ar ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymchwil i deithwyr ac maent yn pwysleisio'r hyn y mae teithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau'n eu gwerthfawrogi mwyaf am ein rheilffordd. Mae ein canlyniadau o ran gwerth wedi'u halinio i Hanes Network Rail a'r chwe thema strategol, yn ogystal â'r uchelgeisiau ar gyfer y rheilffordd a bennwyd gan yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, a chyrff arweiniol trafnidiaeth is-genedlaethol ein rhanbarth yn Lloegr (Peninsula Transport a Western Gateway).

Drwy drefnu ein timau a'n hymdrechion tu ôl i'r canlyniadau hyn, cysylltwn yr hyn a wnawn i'r rheswm dros ei wneud, ac rydym yn defnyddio ein gwybodaeth a'n harbenigedd i wneud y dewisiadau cywir i gwsmeriaid. Drwy wneud hynny, gallwn brofi i bawb ein bod ni'n rhoi ein teithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau yn gyntaf yn rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr.

### Mae ein rheilffordd yn ddiogel a dibynadwy bob amser

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn gwelliannau i ddiogelwch gweithwyr ar y trac, gan ragweld lleihad yn nifer a difrifoldeb damweiniau ymysg ein cydweithwyr. Rydym yn parhau i ymrwymo i gyflenwi rheilffordd ddiogel i deithwyr a'r cyhoedd.

Byddwn yn gweithio i wneud ein hadnoddau mor gynaliadwy a dibynadwy â phosibl o fewn y cyfyngiadau fforddiadwyedd gan leihau gwariant ar waith adnewyddu.

Byddwn yn gwthio'n hunain i gyflenwi'r lefelau uchaf posibl o berfformiad gwasanaethau trên er gwaethaf heriau adeiladu HS2 yn Old Oak Common a'r risgiau oherwydd fflyd ac amserlen newydd TrC.

Lansiasom Brosiect Brunel i wella ein gwasanaethau trên. Gwyddom nad yw'r gwasanaeth presennol yn dderbyniol.

### Yn cyflenwi gwasanaeth cwsmeriaid gwych yn gyson i bawb

Ynghyd â gwella dibynadwyedd y gwasanaeth trên, mae ein cynllun yn cynnwys gwelliannau o ran ymdrin â theithwyr yn y gorsafoedd a reolir gennym, gyda gwelliannau yng ngorsaf Paddington sy'n cynnwys systemau gwybodaeth newydd i gwsmeriaid, trawsnewid dulliau dynodi llwybrau a darparu toiledau Changing Places yn y gorsafoedd a reolir gennym.

### Rydym yn dîm amrywiol sy'n malio am ein gilydd ac am y cymunedau a wasanaethwn

Mae gennym uchelgais i gyrraedd sgôr ymgysylltu â chyflogeion o 51 % , a chael cydnabyddiaeth am ein hymrwymiad i weithlu amrywiol a chynhwysol, sy'n cynrychioli ein cymdeithas a'n gymuned yn well.

### Rydym yn buddsoddi i roi cyfleoedd gwell i'n cymunedau

Rydym yn parhau i gefnogi twf yn nifer y trenau nwyddau a byddwn yn gweithio'n agos â chwmnïau nwyddau, defnyddwyr terfynol ac awdurdodau lleol i ddatblygu'r rheilffordd ar gyfer trenau nwyddau a threnau i deithwyr, gan ddatblygu cydgynlluniau hirdymor gyda chymunedau lleol. Byddwn yn parhau i weithio gydag arianwyr trydydd parti i bennu sut allwn ni wneud y rheilffyrdd yn fwy deniadol i fuddsoddwyr, ac i gefnogi unrhyw welliannau yn y dyfodol.

### Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni gwerth am arian ym mhob peth a wnawn

Byddwn yn lleihau'r gost o redeg y rheilffordd mwy na £490 miliwn. Caiff ein harbedion effeithlonrwydd eu cyflawni drwy gyfuniad o fentrau Network Rail ac arbedion gan y diwydiant cyfan, gan gynnwys model Cyflawni Cyfalaf newydd i ymgysylltu â'n partneriaid yn y gadwyn gyflenwi er mwyn cyflawni ein gweithgareddau adnewyddu yn fwy effeithlon ac effeithiol.

### Yn sicrhau ein rheilffordd yw'r ffordd wyrddach i bobl a nwyddau deithio.

Byddwn yn buddsoddi mewn addasiadau i ymdopi â'r tywydd a newid hinsawdd, yn dechrau datgarboneiddio ein gweithgareddau ein hunain, yn cynnwys dechrau defnyddio fflyd o gerbydau ffyrdd trydan gan ein timau gweithrediadau a chynnal a chadw, a gwneud gwelliannau o ran bioamrywiaeth.

Mabwysiadom egwyddorion a arweinir gan y farchnad yn ein gwaith cynllunio. Golyga hyn ein bod ni wedi blaenoriaethu'n gwariant i gynnal diogelwch ein rheilffordd ar draws y rhanbarth. Hefyd, rydym wedi alinio buddsoddiad i anghenion newidiol ein teithwyr a'n defnyddwyr trenau nwyddau, gan gydnabod bob amser yr angen i gyflenwi perfformiad gwasanaethau trên da ar draws y rhanbarth. Rydym wedi herio ein methodolegau ymyrryd ac wedi ail-flaenoriaethu rhai o'n gweithgareddau. Byddwn yn parhau i ddatblygu ac ymwreiddio ein hymagwedd a arweinir gan y farchnad, gan gynnwys rhannu arfer da ar draws Network Rail.

Hefyd, rydym yn pennu cyfleoedd i ddefnyddio technoleg er mwyn cyflawni canlyniadau gwell yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i ddenu teithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau newydd a rhai sy'n dychwelyd, er mwyn inni gyflenwi rheilffordd ranbarthol da yn rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr.

# Mae ein rheilffordd yn ddiogel a dibynadwy bob amser

Hoffai ein teithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau gael gwasanaeth dibynadwy bob dydd. Ein huchelgais yw darparu asedau dibynadwy, gan atal tarfu ac ymateb yn gyflym pan fydd pethau'n mynd o le. Yn bennaf oll, rhaid i'n rheilffordd ni fod yn ddiogel bob amser. Dylai ein cydweithwyr a'n teithwyr ddisgwyl cyrraedd adref yn ddiogel bob dydd.

## Diogelwch

**Byddwn yn**

- **Gwella diogelwch y gweithlu** gan leihau damweiniau ein cydweithwyr 27 %
- Sefydlu **meddylfryd "diogel drwy ddyluniad"** er mwyn inni ddarparu gweithlu ac offer diogel
- Creu **diwylliant dysgu am ddiogelwch**, gyda phrosesau rhagweithiol wedi'u cynllunio i reoli iechyd a diogelwch
- Creu **rhaglen iechyd a diogelwch cynhwysol** lle arferion iechyd a diogelwch rhagorol bydd "ein ffordd ni o wneud pethau ffordd hyn"
- **Lleihau'r angen i weithwyr Cynnal a Chadw fynd ar y trac,** gan gynnwys ehangu ar y defnydd a wneir o ddronau
- Cyflawni ein cerrig milltir i **gyflawni diogelwch i deithwyr,** gan gynnwys gwelliannau i groesfannau gwastad a diogeled

Mae ein huchelgais o ran iechyd a diogelwch yn glir. Byddwn yn gweithio'n ddygn i gyflawni ein nod y bydd pawb sy'n gweithio i'n rheilffordd, yn ei defnyddio neu'n rhyngweithio â hi, yn cyrraedd adref yn ddiogel bob dydd: "Pawb Adref yn Ddiogel Bob Dydd".

Mae ein strategaeth iechyd a diogelwch fanwl yn ategu'r rheolaethau sefydlog yn ein safonau gweithredu a'n llyfrau rheolau ac yn rhoi pwyslais ychwanegol ar feysydd lle allwn ni gyd-gyflawni'r gwelliant mwyaf. Ategasom ein cyfundrefn sicrwydd asedau gyda fframwaith asesu risg tei bô diogelwch, er mwyn dangos sut mae ein rheolaethau a'n mesurau lliniaru'n parhau i reoli risg diogelwch i'r graddau y bo'n rhesymol ymarferol, a sut y byddwn yn cynnal diogelwch i deithwyr a'r cyhoedd yn ystod Cyfnod Rheoli 7.

Bwriadwn barhau i fuddsoddi mewn diogelwch gweithwyr ar y trac, gan gynnwys gwelliannau i'r mannau lle rydym yn mynd ar y rheilffordd, cynllunio'n gwaith yn well a mentrau technolegol gan gynnwys edrych ar ddefnyddio geo-ffensys i gynnig amddiffyniad gwell i gydweithwyr sy'n gweithio ar y seilwaith. Mae ein cynlluniau hefyd yn cynnwys gwella diogeledd, gan gynnwys atal hunanladdiadau ac amddiffyn safleoedd seilwaith cenedlaethol hanfodol. Yn ogystal â'n gwaith yn adnewyddu croesfannau gwastad, neilltuasom dros £20 miliwn ar gyfer gwelliannau diogelwch i ddefnyddwyr croesfannau gwastad, gan gynnwys arwyddion newydd ar groesfannau

a weithredir gan ddefnyddwyr, a gosod goleuadau aros bach sy'n cefnogi'r gwaith i wella amserlenni.

I gefnogi gwell ganlyniadau iechyd i'n cydweithwyr, byddwn hefyd yn parhau â'r gweithgareddau a ddechreuodd yn ystod Cyfnod Rheoli 6 â'r nod o ddileu cysylltiadau yn y gweithle ag asbestos, silica a golau uwchfioled, a niwed corfforol a achosir gan ddirgryniad neu straen. Caiff y gwaith hwn ei hybu trwy wella asesiadau risg, cadw golwg ar iechyd a lliniaru risg ymhellach. Byddwn yn gweld buddion iechyd o'r broses i drawsnewid at ddefnyddio peiriannau a cherbydau di-allyriadau.


Byddwn yn parhau â'n gwaith i leihau risg gorflinder ymysg ein cydweithwyr, yn ogystal â chanolbwyntio ar feysydd risg eraill, gan gynnwys risg yn gysylltiedig â cherbydau ffordd.

Cyflwynasom glinigau iechyd rhanbarthol yn 2023, gan gynnal gweithgareddau iechyd galwedigaethol yn fewnol, a alluogodd inni fod yn fwy ymatebol i anghenion iechyd ein pobl. Bydd y clinigau iechyd yn gwella ein cymorth iechyd meddwl i gydweithwyr eto fyth, gan adeiladu ar ein hyfforddiant rheolwyr llinell, swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl, a gwasanaethau cymorth i gydweithwyr. Bydd y clinigau iechyd hefyd yn cefnogi cydweithwyr sy'n dychwelyd i'r gwaith yn gynt ar ôl absenoldeb yn gysylltiedig ag iechyd. Byddwn hefyd yn parhau i gynnal ein hymgyrchoedd ymwybyddiaeth iechyd rhanbarthol.


## Diogelwch

Rhagolygon *


| **Marwolaethau ac Anafiadau a Bwysolwyd** | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Marwolaethau ac anafiadau a bwysolwyd fesul oriau a weithiwyd | 0.088 | 0.079 | 0.075 | 0.072 | 0.068 | 0.064 |




| **Lleihau risg damwain trên ** ** | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflawni'r gweithgareddau lleihau risg allweddol a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn | 91 % | 95 % | 95 % | 95 % | 95 % | 95 % |




| **Atebolrwydd personol am ddiogelwch** | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o weithiau y torrwyd rheolau sy'n achub bywyd a digwyddiadau â photensial uchel | 126 | 125 | 123 | 120 | 117 | 115 |




** Mae'r sefyllfa ar ddiwedd 2023/34 (Cyfnod Rheoli 6) yn seiliedig ar ragolwg a luniwyd ym mis Chwefror 2024*
*** Mae'r dangosydd arweiniol Lleihau Risg o Ddamwain Trên (TARR) yn mesur y gweithgareddau a gyflawnwn i leihau'r risg o ddamwain trên (fel y mesurir gan y Model Mynegi Rhagflaenyddion). Yn fewnol, rydym yn cyflwyno dull newydd o fesur ein mewnbynnau i leihau risg o ddamwain trên trwy Gerrig Milltir Diogelwch i Deithwyr. Os yn effeithiol, bwriadwn gyflwyno hwn yn ein cynllun cyflenwi ar gyfer blwyddyn 2*

# Cyflenwi Gwasanaethau Trên

## Teithwyr

**Byddwn yn**

- **Gwella perfformiad 'ar amser'** 4 % a **lleihau nifer y trenau a ganslwyd** 25 % [2]
- **Cyflawni Prosiect Brunel** er mwyn gwella ein perfformiad gwasanaethau trên
- Gwella ein hamserlenni, gwella galluogrwydd ein gweithrediadau a **gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn y diwydiant**
- **Cyflenwi gwasanaeth "arddull metro" mwy dibynadwy** sy'n galluogi i deithwyr troi i fyny a mynd ar y trên rhwng Reading a Llundain
- **Gwella cydnerthedd ein hasedau** ac ymateb yn ddiogel i dywydd eithafol ac anrhagweladwy
- Gwella'r systemau rheoli traffig, rheoli digwyddiadau a chynghori gyrwyr er mwyn i'n **signalwyr hybu perfformiad gwell a mwy diogel**
- Buddsoddi i **wneud ein system llinell uwchben** yn fwy cydnerth
- **Ymateb i ddigwyddiadau'n** gyflymach, gyda thimau ymateb cyd-ased

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu rheilffordd ddiogel, effeithlon, amserol a dibynadwy y mae ein teithwyr a'n defnyddwyr trenau nwyddau yn gallu dibynnu arni. Cydnabyddwn nad ydym wedi cyflawni'r perfformiad gwasanaethau trên a ddisgwyliwyd gennym a'n cwsmeriaid ar ddiwedd Cyfnod Rheoli 6. Mae sicrhau perfformiad gwasanaethau trên da yn her i'r diwydiant cyfan, a gwyddom ei fod yn hollbwysig i'n cwsmeriaid a'n harianwyr. Lansiasom Brosiect Brunel i wella ein perfformiad gwasanaethau trên, a byddwn yn parhau i ddatblygu mentrau manwl i adfer ein dulliau cyflenwi perfformiad yn ystod Cyfnod Rheoli 7. Datblygwyd Prosiect Brunel tra'r oeddem yn rhoi gwedd derfynol ar ein Cynllun Cyflenwi cyffredinol, a chaiff ei ddatblygu i adlewyrchu'r prosiect yn fanwl. Mae Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd yn cwblhau ei hymchwiliad i'n dulliau cyflenwi perfformiad wrth inni lunio'r cynllun hwn a byddwn yn ystyried ei chasgliadau maes o law.

Mae cyd-destun gweithredu ein rhanbarth wedi newid yn sylweddol yn ystod Cyfnod Rheoli 6 a bydd yn newid eto fyth yn ystod Cyfnod Rheoli 7. Mae llinell Elizabeth wedi cysylltu ein llwybr Gorllewin Lloegr â rheolwr seilwaith newydd (ar ran weithredu canolog llinell Elizabeth) ac i lwybr Anglia trwy'r gwasanaethau sy'n rhedeg trwodd. Cafwyd twf sylweddol yn y nifer teithwyr, ac mae 13 % o'r holl deithiau ar drên yn genedlaethol bellach ar linell Elizabeth. Mae'r gwasanaethau'n fwy cymhleth hefyd, gyda gweithrediad arddull trenau tanddaearol yng nghanol Llundain, a gweithrediad gwasanaeth amserlen arddull metro, sy'n rhyngweithio â thraffig cyflym rhyng-dinasoedd a thraffig nwyddau trwm, ar ran Orllewin Lloegr. Mae hyn yn chwyddo effaith unrhyw darfu ac yn gwneud prosesau adfer yn fwy heriol oherwydd niferoedd y

[2] O gymharu â ffigurau a ragwelwyd ar ddiwedd Cyfnod Rheoli 6. Y Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd i gadarnhau canlyniadau perfformiad, gweler tudalen 13

teithwyr sydd angen cyrraedd eu cyrchfannau. Er bod offer rheoli traffig fel system Luminate yn helpu ein gwaith rheoli gwasanaeth, mae diagramau criwiau trên yn fwy cymhleth nag o'r blaen, ac mae argaeledd y fflyd dan bwysau sy'n gwneud adferiad yn fwy anodd.

Yn ystod Cyfnod Rheoli 7, caiff llinell fewnol graidd Dyffryn Tafwys ei thrawsnewid ymhellach gan waith cwmni HS2 yn adeiladu cyfnewidfa Prif Linell Great Western / HS2 yn Old Oak Common: cyfnewidfa wyth-platfform newydd a gaiff ei adeiladu yn ôl-troed llinell-blaen pedwar-trac presennol y rheilffordd dair milltir i'r gorllewin o Lundain Paddington.

Yn rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr, mae Trafnidiaeth Cymru yn trawsnewid y rheilffordd yng nghymoedd y de, a bwriedir cynyddu gwasanaethau ar y llwybr Cwm Taf craidd deirgwaith drosodd ar ddechrau Cyfnod Rheoli 7. Fel llinell Elizabeth, bydd gweithrediad y llinell yn mynd yn fwy cymhleth oherwydd rhyngweithio rhwng dau reolwr seilwaith a rhwng rheilffordd metro a rheilffordd prif linell.

Yn erbyn y cefndir hwn, a'r risg cynyddol i berfformiad gwasanaeth oherwydd asedau'n heneiddio, a thywydd mwyfwy gwael, ein her yn ystod Cyfnod Rheoli 7 yw gwella perfformiad gwasanaethau trên.

Mae gennym gynlluniau cadarn yn eu lle i wella perfformiad yn ystod Cyfnod Rheoli 7 sy'n ymateb i brif achosion oedi. Rydym yn targedu ein gwaith adnewyddu asedau er mwyn mynd i'r afael â risgiau allweddol, gan gynnwys adnewyddu gwifrau'r cyfarpar llinell uwchben rhwng Paddington ac Airport Junction er mwyn lleihau'r risg o ddad-weirio. Byddwn hefyd yn adnewyddu'r system trawst dargludo llinell uwchben yn Nhwnnel Hafren ac yn buddsoddi mewn addasiadau i ymdopi â thywydd gwael a newid hinsawdd er mwyn cyflenwi gwasanaeth mwy dibynadwy mewn tywydd sy'n gwaethygu. Gan gydnabod y risg i berfformiad a achosir gan lystyfiant, yn cynnwys risg coed yn cwympo yn ystod tywydd gwael, rydym yn cynyddu'r swm a wariwn ar reoli llystyfiant.


Rydym yn gweithio mewn partneriaeth i wella ein dulliau cyflenwi perfformiad yn ne Cymru trwy wella ein cydweithredu â Thrafnidiaeth Cymru ac Amey Infrastructure Wales, ac ar draws Cymru, cyn i Drafnidiaeth Cymru gyflwyno'n llawn ei fflyd newydd o drenau a'i amserlen newydd, mwy dwys. Rydym hefyd yn gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru i ddeall y risgiau i berfformiad sy'n codi o gyflwyno trenau newydd, a byddwn yn cydweithredu i gefnogi'r gwaith o gynyddu eu dibynadwyedd, a adlewyrchir yn ein trywyddau perfformiad.

Yn Nyffryn Tafwys, buom yn gweithio gyda Great Western Railway, MTR llinell Elizabeth a chwmnïau trên a nwyddau eraill, yn datblygu dealltwriaeth gyffredinol o achosion perfformiad gwael, ac yn creu cyd-gynlluniau ar gyfer gwella. Mae Dyffryn Tafwys yn rhan hollbwysig o'n rhwydwaith a bydd yn pennu llwyddiant perfformiad y rhanbarth yn gyffredinol. Rydym yn gweithio'n agos â chwmni HS2 Limited i ddeall y risgiau a'r mesurau lliniaru ar gyfer perfformiad oherwydd adeiladu cyfnewidfa GWML / HS2 yn Old Oak Common. Rhagwelwn y bydd y gwaith hwnnw'n cael effaith sylweddol ar ein dulliau cyflenwi perfformiad.

## Prosiect Brunel: gwella perfformiad gwasanaethau trên

Dyffryn Tafwys yw'r coridor hollbwysig yn ein rhanbarth ni. Gall oedi yn yr ardal hon effeithio ar y rhanbarth cyfan: ar Abertawe, Penzance a Cheltenham, ac ar Anglia trwy linell Elizabeth. Yn ystod y pedair blynedd ddiwethaf, rydym wedi cynyddu nifer y trenau sy'n rhedeg 17 % a chynyddu tunelledd 38 % . Mae'r amserlen yn dechrau'n gynt ac yn gorffen yn hwyrach sy'n lleihau'r amser sydd gennym i gynnal a chadw ein rheilffordd. Lleihaodd ein mynediad i'r rheilffordd 15 % ers 2018. Mae ein hasedau'n hŷn ac yn llai dibynadwy, ac nid ydym yn cyflawni dros ein cwsmeriaid.

Mae adfer perfformiad yn Nyffryn Tafwys yn flaenoriaeth hollbwysig ar gyfer eleni. Bydd Prosiect Brunel yn cyflawni ein cynllun gwella. Nod ein cynllun yw sefydlogi dibynadwyedd asedau a pharhau i ganolbwyntio ar ymateb i ddigwyddiadau a rheoli digwyddiadau. Mae ein cynllun yn canolbwyntio ar y prif achosion oedi yn Nyffryn Tafwys, a bydd ein cerdyn sgôr yn mesur ein llwyddiant o ran cyrraedd ein targed perfformiad.




Mae pedwar cam i'n cynllun sef sefydlogi, gwella a chynnal ein perfformiad, a'r cyfan yn gysylltiedig â'r gwaith i wella ein parodrwydd a chydnerthedd ar gyfer adeiladu gorsaf HS2 yn Old Oak Common.


Mae gan Broject Brunel ddeg piler sy'n pennu'r ymyraethau penodol a wneir i wella perfformiad. O fynediad i reoli seilwaith a chaffael i ddiogelwch, mae'r pileri hyn yn pennu'r rôl sydd gan feysydd busnes gwahanol y rhanbarth yn y gwaith o wella perfformiad.

Manteisiwn ar holl feysydd arbenigedd Network Rail, gan ychwanegu adnoddau allanol lle bo angen, i ddatblygu a chyflawni ein cynllun adfer manwl. Rydym yn gwella ein prosesau a'n hasedau i gyflenwi gwell gwasanaeth i'n holl deithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau.


## Cyflenwi Gwasanaethau Trên

Targedau / Rhagolygon* **


| Ar Amser | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Canran y trenau i deithwyr sy'n cyrraedd ar amser ar rwydwaith Network Rail | 59.4 % | 60.4 % | 60.4 % | 58.9 % - 65.3 % ** | 58.5 % - 64.9 % ** | 58.6 % - 65.0 % ** |




| Trenau a ganslwyd | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Canran y trenau i deithwyr sydd heb redeg neu sy'n methu gorsaf ar rwydwaith Network Rail | 4.4 % | 3.8 % | 3.8 % | 3.3 % - 4.3 % ** | 3.3 % - 4.3 % ** | 3.3 % - 4.3 % ** |




| Mynegai cynaliadwyedd cyfansawdd | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
| --- | --- | --- | --- | --- | --- | --- |
| Newid i gynaliadwyedd asedau ers 2013 (mesurwyd ar ddiwedd cyfnod rheoli yn unig) | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | -2.0 % |




** Mae'r sefyllfa ar ddiwedd 2023/34 (Cyfnod Rheoli 6) yn seiliedig ar ragolwg a luniwyd ym mis Chwefror 2024*
*** Mae Penderfyniad Terfynol Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd yn pennu targedau pendant ar gyfer perfformiad trenau i deithwyr ar gyfer dwy flynedd gyntaf Cyfnod Rheoli 7, a thrywyddau dangosol ar gyfer blynyddoedd 3-5. Caiff adolygiad rheoleiddiol ei gynnal i ailosod metrigau perfformiad trenau i deithwyr, targedau rheoleiddiol a pharamedrau iawndal oedi'r diwydiant ar gyfer blynyddoedd 3-5 Cyfnod Rheoli 7. Mae hyn yn cydnabod yr ansicrwydd sylweddol sydd o ran pennu rhagolygon a thargedau ar gyfer perfformiad trenau.*


## Cyfnewidfa Old Oak Common

Mae cwmni HS2 Limited yn adeiladu cyfnewidfa 14-platfform rhwng HS2 a phrif linell Great Western, sef yr orsaf newydd fwyaf a adeiladir yn y DU ers mwy na chanrif. Bydd yn cynnwys gorsaf danddaearol chwe phlatfform ar gyfer gwasanaethau HS2, a gorsaf wyth platfform ar gyfer GWML yn Old Oak Common, tair milltir i'r gorllewin o Lundain Paddington. Bydd yr orsaf yn gyfle i gyfnewid rhwng gwasanaethau HS2, GWML a llinell Elizabeth, a bydd yn un o'r gorsafoedd mwyaf prysur yn y DU.




Ffigur 1: Golwg o'r awyr o gyfnewidfa arfaethedig Old Oak Common

Rhan linell-blaen pedwar-trac yw'r cynllun trac yn y lleoliad hwn ar hyn o bryd. Caiff pedair llinell newydd eu hadeiladu i'r gogledd o'r cynllun a chaiff y pedair llinell bresennol eu hail-alinio â chyffyrdd newydd a grëir i'r dwyrain a'r gorllewin o'r ardal er mwyn creu'r gyfnewidfa newydd.




Ffigur 2: Cynllun arfaethedig y trac

Bwriedir agor yr orsaf ym mis Mai 2030 a bydd angen mynediad helaeth i'r lleoliad yn ystod y cyfnod adeiladu. Rydym yn gweithio'n agos â chwmni HS2 Limited a byddwn yn cydweithio i leihau'r effaith ar berfformiad gwasanaethau trên cymaint â phosibl.

## Nwyddau

**Byddwn yn**

- Gweithio â rhanddeiliaid **i gynyddu gwasanaethau nwyddau 6.9%**
- **Lleihau'r tarfu** ar wasanaethau nwyddau, a lleihau nifer y trenau nwyddau a ganslwyd 51 % o'i chymharu â Chyfnod Rheoli 6
- Canolbwyntio ar fynd i'r afael ar **gyfyngiadau pwysau echel trwm**

Mae Prydain yn dibynnu ar nwyddau trên i gadw'r economi i fynd, ac mae'r busnes nwyddau rheilffordd yn parhau i dyfu. Rydym yn falch i gefnogi'r sector nwyddau sy'n ffynnu, gyda meintiau mawr o draffig ar draws ein rhanbarth yn yr holl brif lifoedd nwyddau.

Mae rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr yn rheilffordd traffig cymysg lle mae ein llifoedd nwyddau hollbwysig a'n trenau i deithwyr yn rhyngweithio, sy'n golygu bod y gwasanaethau nwyddau'n elwa o'r un ffocws ar berfformiad, a'r un buddsoddiad yn ein gwaith adnewyddu a dibynadwyedd seilwaith, â'n gwasanaethau i deithwyr.

Rydym wedi ymrwymo i gefnogi'r twf o drenau nwyddau yn y rhanbarth. Trwy ein proses ymgysylltu â rhanddeiliaid, ymgysylltom â chwmnïau trenau nwyddau a defnyddwyr terfynol er mwyn deall eu hanghenion o ran seilwaith rheilffordd dibynadwy, er mwyn cefnogi'r twf a ragwelir.

Byddwn yn gweithio ochr yn ochr â phartneriaid i gefnogi dyheadau o ran twf trenau nwyddau, gan gynnwys sut all newidiadau i'n mynediad peirianyddol gefnogi twf trenau nwyddau, a sut all adnewyddu asedau a newid safonau helpu i hwyluso'r gwaith o ddileu cyfyngiadau o ran lled y rheilffordd.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar fynd i'r afael â chyfyngiadau pwysau echel trwm, gan gydnabod y ffordd maent yn cyfyngu ar draffig. Rydym wedi cynnwys gwaith adnewyddu yng nghynllun ased y strwythurau er mwyn mynd i'r afael â chyfyngiadau pwysau echel trwm penodol, a thraphont Pont Mills yng Nghernyw a Phont Clare Road yn ne Cymru yn benodol. Yn gyffredinol, mae'r sefyllfa o ran galluogrwydd pwysau echel trwm y pontydd yn dda ar y cyfan, ac ni fyddwn yn disgwyl gweld dirywiad a fyddai'n arwain at effaith systemaidd ar alluogrwydd. Fodd bynnag, byddai angen ystyried hyn mewn gwaith cynllunio cyfnod rheoli at y dyfodol.

Mae ein cynllun perfformiad yn canolbwyntio ar leihau oedi i wasanaethau teithwyr a threnau nwyddau, ac rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i wella ein perfformiad trenau nwyddau sylfaenol trwy fynd i'r afael â diffygion a dibynadwyedd asedau, gan ein bod yn cydnabod pwysigrwydd gweithrediadau trenau nwyddau sy'n perfformio'n dda. Gan fod trenau nwyddau'n rhan fawr o'r gwasanaethau sy'n rhedeg ar hyd coridor Dyffryn Tafwys a thrwy Dwnnel Hafren, byddant yn elwa'n anuniongyrchol o'r gwaith i wella dibynadwyedd ein system linell uwchben trwy adnewyddu'r gwifrau a'r trawst dargludo. Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni a chynnal nifer fach o gyfyngiadau cyflymder dros dro, gan gydnabod yr effaith a gânt ar wasanaethau nwyddau.

Rydym wedi ymrwymo hefyd i wella diogelwch gweithrediadau trenau nwyddau. Rydym yn ymgysylltu â'r Rhaglen Gwella Diogelwch Trenau Nwyddau (FSIP) genedlaethol er mwyn deall cyfleoedd ar gyfer gwella yn rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr. Roedd y gweithgareddau a


gyflawnwyd yn ystod Cyfnod Rheoli 6 yn cynnwys tynnu llystyfiant a sgrap ymaith, mesurau gwrth-dresmasu, gwelliannau gwastraff, a gwella llwybrau cerdded a mynedfeydd. Bydd y gwaith a gyflawnwyd yn ystod y cyfnod rheoli hwn yn llywio gweithgareddau Cyfnod Rheoli 7, a byddwn yn gweithio'n agos â chwmnïau trenau nwyddau a defnyddwyr terfynol nwyddau i bennu meysydd blaenoriaeth. Bydd y Rhaglen Gwella Diogelwch Trenau Nwyddau'n parhau i ariannu'r gwelliannau hyn, a bydd yn ategu'r cynnydd mewn buddsoddiad ar gyfer rheoli draeniau a llystyfiant yn ein cynllun rhanbarthol ar gyfer Cyfnod Rheoli 7.

Yn ogystal â'n hymrwymiad i gefnogi'r twf mewn trenau nwyddau ar gyfer nwyddau o bob math, gan gynnwys nwyddau swmpus (agregau, dur) a rhyngfoddol, rydym yn gweithio i ddod â threnau nwyddau cyflym i'r rhwydwaith rheilffyrdd, gan gynnal astudiaethau ar alluogrwydd ein prif orsafoedd (Bristol Temple Meads, Paddington, a Chaerdydd Canolog) i ymdrin â danfoniadau nwyddau a dadlwytho, i asesu pa orsafoedd sy'n agos i ddepos logisteg presennol, ac i ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer datblygu tir cyfagos i'r orsafoedd. Rydym yn ymgysylltu'n adeiladol gyda chwmnïau â diddordeb cynyddol mewn ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer trenau nwyddau cyflym, gan gynnwys defnyddio trenau i deithwyr ar gyfer dosbarthu parseli, a'r awydd am gyflwyno trenau nwyddau dynodedig. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y diwydiant gyda'r nod o ysgogi meysydd eraill o arloesi ar gyfer trenau nwyddau.


## Cyflenwi Gwasanaethau Trên

Targedau *

| Nifer y trenau nwyddau a gaiff eu canslo | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y trenau nwyddau sydd heb redeg | 3.3 % | 2.1 % | 1.6 % | 1.6 % | 1.6 % | 1.6 % |




| Twf cludiant nwyddau | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Twf yn y tunelli nwyddau fesul km o gymharu â 2023/24 | Amh. | 1.4 % | 2.8 % | 4.1 % | 5.5 % | 6.9 % |




** Mae'r sefyllfa ar ddiwedd 2023/34 (Cyfnod Rheoli 6) yn seiliedig ar ragolwg a luniwyd ym mis Chwefror 2024*

# Yn cyflenwi gwasanaeth cwsmeriaid gwych yn gyson i bawb

Gallwn effeithio ar fywydau miliynau o bobl bob dydd drwy gyflenwi gwasanaeth gwych i deithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau. Mae patrymau teithio wedi newid ers y pandemig, gyda mwy o deithiau at ddibenion hamdden ar draws y rhanbarth, ond llai o'r mathau eraill o deithiau. Trwy ein timau rheilffyrdd lleol yn Nyfnaint a Chernyw, a ledled Cymru, byddwn yn cefnogi'r galw cynyddol hwn, gan gynnwys adolygu amserau ein gwaith peirianyddol. Ni sy'n gweithredu gorsafoedd Llundain Paddington, Reading a Bristol Temple Meads a byddwn yn cyflawni gwelliannau i gynorthwyo pawb sy'n eu defnyddio gan gynnwys rhoi gwybodaeth amser real am deithiau i deithwyr i'w helpu nhw i gael y profiad a ddisgwyliant.

## Cwsmeriaid a Chymunedau

**Byddwn yn**

- **Gwella boddhad cwsmeriaid** 2%
- Gwella **goleuadau, seddi, wi-fi, diogeledd, profiad manwerthu a gwasanaeth cwsmeriaid** yn y gorsafoedd a reolir gennym
- **Diweddaru systemau gwybodaeth i deithwyr** yng ngorsafoedd Paddington a Reading
- Gosod system **ddynodi llwybr newydd** yng ngorsaf Paddington
- Gosod **toiledau Changing Places** yn y gorsafoedd a reolir gennym
- **Cymydog da,** yn cwblhau pob cais am wasanaeth gan gymydog i'r rheilffordd ymhen 20 o ddiwrnodau

Hoffem ragori mewn darparu profiad diogel ac arbennig i bawb sy'n defnyddio'r rheilffordd. Byddwn yn rhanbarth a arweinir gan ein cwsmeriaid, sy'n rhoi profiad dibynadwy ac ardderchog i bawb sy'n defnyddio ein rhwydwaith o'r naill ben y daith i'r llall, yn cydweithredu â'n cwmnïau trên, ac yn defnyddio safbwyntiau boddhad teithwyr i lywio ein cynlluniau.

Wrth ddatblygu ein cynlluniau ar gyfer Cyfnod Rheoli 7, ymgysylltom â rhanddeiliaid gan gynnwys teithwyr er mwyn deall eu blaenoriaethau, fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn rheilffordd sydd ar ochr y teithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau. Gwasanaeth trên sy'n gyson ddibynadwy a werthfawrogwyd mwyaf gan ein teithwyr, ond hefyd rheilffordd hygyrch, a phrofiadau gwell i deithwyr mewn gorsafoedd.

Yn ogystal â'n cynlluniau ar gyfer cyflenwi gwasanaethau trên, rydym yn ymateb i'n teithwyr trwy wella profiadau teithwyr yn y gorsafoedd a reolir gennym. Byddwn yn darparu mwy o fannau gwefru i gerbydau trydan a Wi-fi yn y gorsafoedd hyn. Gan gydnabod pwysigrwydd gwybodaeth i deithwyr, byddwn yn diweddaru'r systemau gwybodaeth i gwsmeriaid yng ngorsafoedd Llundain Paddington a Reading ac yn gwella'r system ddynodi llwybr yn

Paddington, gan wella'r ddarpariaeth wybodaeth, a hygyrchedd a chynhwysiant. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid yn y diwydiant, gweithio ar raglen 'Gwybodaeth Glyfrach, Teithiau Doethach', ac yn gwella ein hystafelloedd rheoli gorsafoedd er mwyn cyflenwi gwasanaethau gwell. Bydd ein teithwyr yn elwa o ddatblygiadau Paddington Cube a Bristol Temple Quarter.

Mae hygyrchedd gorsafoedd yn flaenoriaeth i deithwyr, yn gwella profiad teithwyr ac yn annog mwy o deithwyr i ddefnyddio'r rheilffordd. Byddwn yn parhau i wella platfformau ein gorsafoedd trwy ein rhaglen adnewyddu graidd, yn gosod ac yn adnewyddu palmentydd botymog, ac yn cydymffurfio â gofynion goleddf y llawr mewn lleoliadau allweddol. Bydd teithwyr hefyd yn elwa o gael lifftiau a grisiau symudol mwy dibynadwy, gwaith adnewyddu ar bontydd troed gorsafoedd, a gwelliannau i oleuadau platfformau. Byddwn yn gosod toiled Changing Places ym mhob un o'r gorsafoedd a reolir gennym, gan wella hygyrchedd a chynhwysiant.

Byddwn yn datblygu dull hyfforddi sy'n arwain y diwydiant ym maes gwasanaethau cwsmeriaid ar gyfer ein pobl, gan gynnwys y mentrau Academi Gwasanaeth Cwsmeriaid a Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Fyw o fewn Network Rail, a rhaglen Crewyr Profiad Gwych cwmni Great Western Railway. Byddwn yn gweithio fel "un tîm" gyda Great Western Railway yng ngorsaf Llundain Paddington i ddarparu gwasanaeth cwsmeriaid di-dor gan yr holl staff a'r rhanddeiliaid.


Trwy gronfa arloesi gorsaf Bristol Temple Meads, byddwn yn profi ffyrdd newydd o wella agweddau ar brofiad teithwyr. Gallai hyn gynnwys symleiddio teithiau drwy gynnig tocynnau clyfar, gwneud gorsafoedd yn fwy hygyrch drwy apiau dynodi llwybr, defnyddio Deallusrwydd Artiffisial i wella llifoedd pobl a dylunio cyfleusterau gwell trwy ddefnyddio egwyddorion dylunio sy'n canolbwyntio ar bobl.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn gymydog da ac i ymgysylltu'n gadarnhaol â'n partneriaid a'n cymunedau. Yn ystod Cyfnod Rheoli 7, byddwn yn cyflawni pob cais am wasanaeth a gawn gan gymydog i'r rheilffordd ymhen 20 o ddiwrnodau, gan ddefnyddio'r fframwaith "câr dy gymydog" i lywio ein cyfathrebu. Byddwn yn parhau i weithio'n agos â phartneriaethau rheilffordd cymunedol yn ein rhanbarth, gan reoli'n weithredol 20 o gynlluniau cymunedol lleol yn y rhanbarth, ac yn datblygu cydweithrediad ac aliniad gwell gyda mentrau rhanddeiliaid rhanbarthol er mwyn gwella profiad cwsmeriaid integredig. Yn olaf, byddwn yn parhau i hyrwyddo absenoldebau gwirfoddoli gan ein cydweithwyr er mwyn cefnogi mentrau cymunedol.


## Cwsmeriaid a Chymunedau

Rhagolygon *

| Boddhad teithwyr | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon â'u taith yn gyffredinol | 7.74 | 7.78 | 7.80 | 7.81 | 7.83 | 7.86 |




| Boddhad â gorsafoedd a reolir | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon â'u profiad mewn gorsafoedd a reolir gan NR | 70.1 % | 70.3 % | 71.4 % | 71.5 % | 72.0 % | 72.6 % |




** Mae'r sefyllfa ar ddiwedd 2023/34 (Cyfnod Rheoli 6) yn seiliedig ar ragolwg a luniwyd ym mis Chwefror 2024*

# Rydym yn dîm amrywiol sy'n malio am ein gilydd ac am y cymunedau a wasanaethwn

Ni sy'n rhedeg ein rheilffordd, ac ein pobl ni yw ei chalon sy'n curo. Nhw sy'n dod â'r rheilffordd yn fyw i'w gilydd ac i'r cymunedau a wasanaethwn. Hoffem i'n hymrwymiad ni i ofalu am ein gilydd, cadw pawb yn ddiogel, yn iach ac yn rhan o bethau, fod yn weladwy bob dydd.

## Pobl

**Byddwn yn**

- Gwella ein hymgysylltiad â chyflogeion i 51 %
- Cael ein cydnabod am ein **hymrwymiad i fod yn deg, yn amrywiol ac yn gynhwysol,** ac yn **fwy cynrychiadol o'n cymdeithas a'n cymunedau**
- Gweithio mewn **timau datganoledig sy'n rhedeg rheilffyrdd lleol,** gan rymuso ymreolaeth leol er mwyn rhoi teithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau yn gyntaf
- **Cydweithredu â'n partneriaid yn y diwydiant** i baratoi ein hunain ar gyfer diwygiadau posibl i'r diwydiant
- Parhau i gynnig **cynlluniau i brentisiaid a graddedigion a chynlluniau carlam** campus ar gyfer ein harweinwyr yn y dyfodol
- **Gwella ein gweithleoedd gyda'r cyfleusterau llesiant cywir**
- Parhau i ddatblygu **cymhwysedd ein pobl**
- **Buddsoddi mewn mwy o hyfforddiant** fel bod gan ein pobl y **sgiliau cywir** i weithio mewn gweithle digidol

Gyda'n gilydd, byddwn yn creu gweithlu ymrwymedig, effeithiol ac effeithlon, sydd wedi'i alinio a'i ysgogi i gyflawni gweledigaeth ac amcanion ein busnes. Bydd gennym ddiwylliant cefnogol a gofalgar sy'n atgyfnerthu ein gwerthoedd, yn grymuso ein pobl, yn annog arloesedd, ac yn hyrwyddo gweithlu amrywiol a chynhwysol sy'n adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethwn.

Rydym wedi dechrau newid yn ddiwylliannol ac yn drefniadol, gan foderneiddio a hybu newid yn ystod Cyfnod Rheoli 6 i baratoi ar gyfer Cyfnod Rheoli 7. Mae gennym lawer mwy i wneud er mwyn ymwreiddio'r gwaith hwn fel ein bod ni'n cyflawni ein hamcanion drwy wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnodd allweddol, sef pobl. Bydd y strategaeth ar gyfer ein pobl yn ein symud ni i ffwrdd o reoli adnoddau dynol yn dactegol ac yn rhagweithiol at ddull rhagweithiol system gyfan a arweinir gan bobl i gyflawni ein strategaeth fusnes. Drwy falio am ein gilydd, a theimlo'n rhan o'r gwaith a wnawn, byddwn yn helpu i gadw pawb (ein pobl a'n cwsmeriaid) yn ddiogel ac yn iach.

Hoffem i'n pobl fod yn ymrwymedig, yn meddu ar sgiliau a chymhwysedd, ac yn teimlo ein bod ni'n gofalu amdanynt, er mwyn iddynt fod yn gwbl fodlon yn y gwaith. Drwy hyn, bydd rhanbarth

Cymru a Gorllewin Lloegr yn lle blaenllaw i weithio ynddo. Byddwn yn cadw, yn denu ac yn hyrwyddo carfan amrywiol a chynhwysol o dalent, yn llunio arweinwyr gwych, ac yn hyrwyddo dysgu ac arloesedd drwyddi draw i gyflawni hyn. Byddwn yn cryfhau ein cynlluniau rheoli cymhwysedd i roi sicrwydd bod ein pobl yn gymwys, ac yn parhau i fod yn gymwys, i gyflawni eu cyfrifoldebau, ar hyn o bryd ac fel mae anghenion busnes yn newid.

Byddwn yn defnyddio dulliau cynllunio gweithlu strategol fel bod gennym y bobl gywir â'r sgiliau cywir yn y man cywir, sy'n gwybod yr hyn a ddisgwylir ganddynt er mwyn datblygu a gweithredu ffyrdd wedi'u moderneiddio o weithio. Byddwn yn dod ag unigolion a thimau ynghyd, gyda meddylfryd un tîm, yn gweithio tuag at gyflawni targedau a rennir trwy ein rheilffyrdd lleol i greu gwerth i gwsmeriaid. Daw hyn â phrosesau penderfynu'n agosach i dimau lleol a bydd yn ein helpu ni i feithrin ein pobl i fod yn arbenigwyr arweiniol. Gweithredem â diwylliant cyffredinol, wedi'i ymwreiddio mewn prosesau o ganolbwyntio'n ddiogel ar gwsmeriaid, ac wedi'i gyfoethogi gan amrywiaeth gynyddol ein timau.

Byddwn yn cryfhau ein cydweithrediad â'n partneriaid yn y diwydiant, gan weithio gyda'n gilydd i baratoi ar gyfer diwygiadau posibl i'r diwydiant, a gwneud y defnydd gorau posibl o gyfleoedd i ddarparu gwasanaeth gwell i'n teithwyr, ein defnyddwyr trenau nwyddau a'n cydweithwyr.

Byddwn yn sefydliad sy'n dysgu, yn datblygu ein pobl er mwyn iddynt ragori ar eu hunain, yn dysgu oddi wrth ein camsyniadau ac yn adeiladu ar ein llwyddiannau. Drwy ddysgu oddi wrth ein gilydd a pharchu safbwyntiau gwahanol, byddwn yn gwella ein cydbwysedd diwylliannol.


Hoffem i'n pobl weithio mewn diwylliant hygyrch a chefnogol wedi'i grymuso, gydag arweinwyr gwych, sy'n ein galluogi ni oll i berfformio ar ein gorau. Byddwn yn meithrin ymddiriedaeth a diwylliant cryf o ymgysylltu â chyflogeion drwy wrando ar adborth gan gyflogeion a gweithredu arno. Byddwn yn cydnabod y gwaith gwych a wneir gan ein pobl a byddwn yn dathlu ein pobl, ein dysgu a'n llwyddiant. Byddwn yn gwella ein cyfathrebu er mwyn i wybodaeth fod yn hygyrch i bawb, a bod ein negeseuon allweddol yn cyrraedd pob rhan o'n busnes, yn eglur ac yn berthnasol.

Rydym wedi ymrwymo'n gryf i amrywiaeth a chynhwysiant. Byddwn yn creu amgylchedd diogel, croesawgar, parchus a chynhwysol i'n holl bobl, ein teithwyr a'n gadwyn gyflenwi, lle bydd pawb yn teimlo wedi'u gwerthfawrogi am bwy ydynt mewn gwirionedd. Byddwn yn parhau i ddatblygu gweithlu cynhwysol sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein cymunedau rhanbarthol ac yn gwneud ein teithiau'n fwy cynhwysol.

Byddwn yn hwyluso sefydliad syml, modern a hyblyg sy'n ddiogel, yn perfformio'n dda, yn effeithlon, yn gynaliadwy ac wedi'i arwain yn wirioneddol gan wasanaethau. Byddwn yn rhoi i'n pobl gwell offer a'r sgiliau a chymhwysedd cywir i gyflawni eu rôl yn wych, gan herio prosesau a ffyrdd o weithio nad ydynt yn ychwanegu unrhyw werth. Mae ein gweithleoedd yn fodern, diogel a glân, gan gynnig amgylchedd gwaith gwych i'n holl bobl.

## Pobl

| Ymgysylltu â chyflogeion | Rhagolygon * | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
| Canran yr ymatebion ffafriol yn yr arolwg ymgysylltu â chyflogeion | 48 % | 49 % | 49 % | 50 % | 50 % | 51 % |




** Mae'r sefyllfa ar ddiwedd 2023/34 (Cyfnod Rheoli 6) yn seiliedig ar ragolwg a luniwyd ym mis Chwefror 2024*

# Rydym yn buddsoddi i roi cyfleoedd gwell i'n cymunedau

Mae ein rheilffordd wrth galon ein cymunedau. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ffyniant y rhai sy'n gweithio ac yn byw ar y rheilffordd i'r dyfodol. Er bod cyllid ar gyfer gwelliannau i'r rheilffordd tu hwnt i'n Cynllun Cyflenwi Cyfnod Rheoli 7, ein huchelgais yw bod y cwmni gorau o ran gweithio gyda llywodraethau a thrydydd partïon, er mwyn canfod, datblygu a chyflawni gwelliannau deallus i'r rheilffordd sy'n cefnogi twf economaidd a'r agenda ffyniant bro ar draws ein rhanbarth.

## Twf Cynaliadwy

**Byddwn yn**

- Gweithio gyda randdeiliaid, cymunedau, byrddau twristiaeth a thrydydd partïon fel **timau lleol datganoledig**
- **Gweithio gyda randdeiliaid i gyflawni blaenoriaethau lleol** fel gwasanaethau arddull metro yng Nghernyw a Bryste
- **Cefnogi Trafnidiaeth Cymru a Llywodraeth Cymru** i gyflawni eu strategaeth rheilffordd, gyda threnau newydd ac amserlenni gwell ledled Cymru
- Datblygu **strategaethau buddsoddi lleol** yn gweithio gyda buddsoddwyr cyhoeddus a phreifat er mwyn helpu i feithrin cydweithrediadau cryfach a mwy gwerthfawr
- Parhau i weithio gyda phartneriaid i **drawsnewid gorsaf Bristol Temple Meads a Bristol Temple Quarter** gan gynnwys y gwaith galluogi er mwyn cefnogi tai a thwf
- Gwella ein **hymgysylltu â mwy o randdeiliaid lleol** ledled y rhanbarth gan gynnwys rheilffyrdd cymunedol a grwpiau defnyddwyr lleol
- Cefnogi'r Adran Drafnidiaeth i ddeall y cyfleoedd y mae **Rhwydwaith y Gogledd** yn eu creu yn y rhanbarth

Mae ein cynllun ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 yn canolbwyntio ar hwyluso'r gwaith o gynyddu lefelau buddsoddiad er mwyn cyflawni canlyniadau gwych i deithwyr, gan ychwanegu gwerth i reilffordd ranbarth Cymru a Gorllewin Lloegr. Bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi twf economaidd yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Hoffem fod yn gorff y gellir ymdrin ag ef yn haws fyth ac yn bartner effeithlon a dibynadwy sy'n buddsoddi'n reddfol ar draws y rhanbarth.

Byddwn yn cryfhau ein hymgysylltu a'n perthynas gweithio ag arianwyr, awdurdodau lleol a chymunedau, gan gynnwys Trafnidiaeth Cymru ac awdurdod cyfunol gorllewin Lloegr ar ddechrau'r cyfnod rheoli. Byddwn yn parhau i ddatblygu cyd-gynlluniau byrdymor, canolig a hirdymor gyda llywodraeth leol a chymunedau.


Byddwn yn sefydliad "buddsoddi'n ddeallus" sy'n gallu cipio, asesu a blaenoriaethu buddsoddiad ar draws y rhanbarth er mwyn rhoi'r gwerth gorau i'r pwrs cyhoeddus, lleihau'r gost o redeg y rheilffyrdd a chael yr effaith lleiaf posibl ar deithwyr, yr amgylchedd a'r cyhoedd.

Byddwn yn gweithio gyda phartïon allweddol i ddatgloi'n llawn gwerth y rheilffordd yn y cymunedau a wasanaethwn, trwy weithio'n rhagweithiol gyda phartïon yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat i gyflymu datblygiadau o amgylch ein gorsafoedd er mwyn integreiddio'r rheilffordd â mathau eraill o deithio, a gwella'r profiad trafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol. Byddwn yn pennu gorsafoedd â chyfleoedd i'w datblygu trwy ddull uwchgynllun gan edrych ar dir y rheilffordd a thir llywodraeth leol ochr yn ochr â buddsoddiadau cyhoeddus a buddsoddiadau preifat. Bydd datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o deithio hygyrch integredig ehangach (y filltir gyntaf a'r filltir olaf) yn allweddol i gyflawni'r gwaith hwn, ac yn ehangu ar ein meysydd dadansoddi i ddeall teithio integredig taith-gyfan a rhwystrau rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Hoffem bennu mwy o ffyrdd i fuddsoddi yn ein hasedau er mwyn cefnogi polisi llywodraethol (fel tai, datgarboneiddio, cynaliadwyedd a defnyddio ynni).

Yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth mewn perthynas â rhan ogleddol HS2, rydym yn cefnogi'r Adran Drafnidiaeth i ddeall y cyfleoedd mae Rhwydwaith y Gogledd yn eu creu i'r rhanbarth ac yn gweithio'n weithredol ar gynigion i ddwyn ymlaen trydaneiddio yng ngogledd Cymru ac adfer y rheilffordd rhwng Plymouth a Tavistock yn Nyfnaint.

## Twf Cynaliadwy

| Cerrig milltir y gwelliannau | Rhagolwg * 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflawni cerrig milltir y gwelliannau'n llwyddiannus | 50 % | 80 % | 80 % | 80 % | 80 % | 80 % |




** Mae'r sefyllfa ar ddiwedd 2023/34 (Cyfnod Rheoli 6) yn seiliedig ar ragolwg a luniwyd ym mis Chwefror 2024*

# Rydym yn canolbwyntio ar gyflawni gwerth am arian ym mhob peth a wnawn

Bob dydd, mae'n gyfrifoldeb arnom i wario arian trethdalwyr yn effeithiol ac yn effeithlon, a'i defnyddio i gyflenwi rheilffordd sy'n perfformio'n wych. Mae lleihau cymhorthdal net y diwydiant cyfan yn flaenoriaeth i bawb ohonom. Byddwn yn cyflawni hyn trwy gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd a ymrwymasom iddynt, ac amddiffyn a chreu refeniw diwydiant ychwanegol. Mae cyflawni'r gwelliannau i wasanaethau trên a gynlluniwyd gennym yn hanfodol i'r broses o annog mwy o deithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau i ddefnyddio'r rheilffordd a thyfu ein refeniw.

## Effeithiolrwydd

**Byddwn yn**

- Cyflawni'n llwyddiannus **gwaith adnewyddu adnoddau gwerth £2.6 biliwn** a **gwariant gweithredol gwerth £2.5 biliwn,** gan gynnwys **mwy na £490 miliwn o arbedion effeithiolrwydd**
- **Gweithio'n gydweithredol â'n partneriaid yn y diwydiant** i greu cynllun busnes rhanbarthol blynyddol i'r diwydiant cyfan
- **Sicrhau gwerth am arian**, y prosiect cywir yn ôl y fanyleb gywir, ar amser
- **Cleient mwy deallus** yn ein cadwyn gyflenwi, gan weithio'n agosach ac yn fwy cydweithredol
- Cynyddu nifer y gwasanaethau a chyfleusterau a ddarparwn yn y gorsafoedd a reolir gennym, gan greu **refeniw ychwanegol i'w ail-fuddsoddi**

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni lefelau effeithiolrwydd sy'n ein gwthio. Bydd ein costau gweithredu 10 % yn rhatach a'n gwaith adnewyddu'n 15 % yn rhatach ar ddiwedd Cyfnod Rheoli 7, o'u cymharu â diwedd Cyfnod Rheoli 6 (cyn chwyddiant). Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi ymgysylltu â phobl ledled y rhanbarth i bennu a datblygu cynlluniau effeithlonrwydd, ac wedi aros yn ystwyth yn wyneb ansicrwydd economaidd ehangach.

I gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein cynllun effeithlonrwydd, gweithiasom gyda thîm ymchwil, datblygu ac arloesi, tîm Gweithrediadau'r Gadwyn Gyflenwi a thîm Seilwaith Deallus Network Rail i ganfod sut yr ydym yn elwa o arbedion effeithlonrwydd y swyddogaethau cenedlaethol. Rydym wedi gweithio gyda rhanbarthau eraill Network Rail, yn rhannu cynlluniau effeithlonrwydd er mwyn deall pa arbedion effeithlonrwydd eraill a allai fodoli yn ein rhanbarth ni.

Ein prif fenter effeithlonrwydd asedau ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 yw rhoi ar waith dull a adolygwyd yn sylfaenol o gyflawni ein portffolio gwaith cyfalaf: Cleient Deallus. Gan osod contractau

newydd i dîm craidd o bartneriaid yn y gadwyn gyflenwi, bydd yn trawsnewid proses ymgysylltu'r rhanbarth â'r gadwyn gyflenwi. Bydd yn lleihau dyblygu gweithgareddau rhwng Network Rail a'r gadwyn gyflenwi ac yn arwain at gyflenwi prosiectau'n fwy effeithiol drwy fodelau pecynnu a chyflenwi wedi'u hoptimeiddio. Bydd hefyd yn gwella hyblygrwydd y fanyleb a'r dyluniad, yn ffocws peirianneg gwerth, ac yn lleihau baich tendro a gweinyddu ar y gadwyn gyflenwi. Bydd yn creu egwyddorion cytundebol a masnachol effeithiol, a gwelliannau o ran arloesi a thechnoleg. Mae rhoi'r model hwn ar waith wedi arwain at leihau ein tîm Cyflawni Cyfalaf mewnol yn ystod Cyfnod Rheoli 6.

Rydym wedi moderneiddio ein sefydliad cynnal a chadw, gan gyflwyno ffyrdd newydd, mwy diogel o weithio, yn anfon dim ond y nifer cywir o bobl gyda'r sgiliau cywir, i wneud y gwaith cywir ar yr adeg gywir - yn ddiogel. Rydym yn cyflwyno timau ymateb disgyblaeth cyd-ased ar lwybr Gorllewin Lloegr er mwyn ymateb i ddiffygion yn gyflymach ac yn fwy effeithlon.

Mae ein cynllun effeithlonrwydd eang hefyd yn cynnwys arbedion yn ein gwariant gweithrediadau a chymorth. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y gweithgareddau sy'n cynnal y gwaith o redeg y rheilffordd mor effeithlon â phosibl.

Mae arbedion effeithiolrwydd diwydiant-gyfan, a alluogir gan ddiwygiadau i'r diwydiant, yn rhan arwyddocaol o'n cynllun. Mae'n cynnwys optimeiddio mynediad i'r seilwaith er mwyn lleihau cost gwaith peirianyddol a lleihau cymaint â phosibl yr effaith ar deithwyr a threnau nwyddau. Byddwn yn adolygu banciau gwaith ein hasedau a'n cynlluniau cynnal a chadw i gyfuno gweithgareddau er mwyn defnyddio eiddo yn y ffordd gorau posibl. Byddwn hefyd yn adolygu'r cydbwysedd gorau posibl rhwng oriau peirianyddol ac oriau traffig, gan gynyddu mynediad dros nos yn ystod yr wythnos mewn rhai ardaloedd, a gwneud gwell defnydd o weithio blocâd mewn ardaloedd eraill. Byddwn yn pennu cyfleoedd i alinio â gofynion gwaith adeiladu gorsaf HS2 yn Old Oak Common.


Mae ein Bwrdd Effeithlonrwydd Diwydiant yn parhau i gynnig fforwm ar gyfer pennu arbedion effeithlonrwydd traws-diwydiannol, ac i herio'r holl bartïon i ddeall buddion gwella cydweithredu yn y diwydiant cyn y diwygio deddfwriaethol, gan gynnwys cyd-strategaethau eiddo, moderneiddio'r gweithlu a mentrau optimeiddio mynediad.

Mae ein cynllun effeithlonrwydd yn ein gwthio ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein cynlluniau. Er hynny, bydd cyflawni'r lefel hwn o effeithlonrwydd yn gynyddol heriol, oherwydd yr ansicrwydd a'r heriau a wynebwn yn ystod Cyfnod Rheoli 7, gan gynnwys chwyddiant a'r effaith allai ei gael ar ein banciau gwaith craidd.


## Effeithlonrwydd

**Targedau ***

| **Effeithlonrwydd gwariant gweithredu** | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arbedion effeithlonrwydd yn erbyn ein cynllun gwariant gweithredu ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 | Amh. | £11 miliwn | £34 miliwn | £71 miliwn | £119 miliwn | £176 miliwn |




| **Effeithlonrwydd gwariant cyfalaf** | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arbedion effeithlonrwydd yn erbyn ein cynllun gwariant cyfalaf ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 | Amh. | £25 miliwn | £73 miliwn | £140 miliwn | £223 miliwn | £319 miliwn |




| **Mesur perfformiad ariannol** | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Amrywiant gwariant a chyflenwi a gynllunnir yn erbyn y targed | -£209.7 miliwn | £0 miliwn | £0 miliwn | £0 miliwn | £0 miliwn | £0 miliwn |




** Mae'r sefyllfa ar ddiwedd 2023/34 (Cyfnod Rheoli 6) yn seiliedig ar ragolwg a luniwyd ym mis Chwefror 2024*

# Yn sicrhau ein rheilffordd yw'r ffordd wyrddach i bobl a nwyddau deithio

Mae ein teithwyr a'n defnyddwyr trenau nwyddau'n edrych yn gynyddol ar y rheilffordd fel y dull trafnidiaeth sy'n amlwg gynaliadwy. Mae gennym gyfrifoldeb i leihau ein hôl-troed carbon ein hun, darparu rheilffordd sy'n ymdopi â newid hinsawdd a gwerthfawrogi'r deunyddiau a'r tir rydym yn elwa ohonynt. Drwy wneud hyn oll, anelwn i fod y dull teithio mwyaf cynaliadwy gan roi gwerth cymdeithasol i rannau mawr o'r DU a galluogi economi sy'n addas i'r dyfodol.

## Twf cynaliadwy

**Byddwn yn**

- Arwain ar gamau i **liniaru effaith gynyddol newid hinsawdd**, yn hyrwyddo trafnidiaeth allyriadau isel ac yn lleihau ein hallyriadau ni 21 %
- **Gwella bioamrywiaeth** 4 %
- **Rhanbarth cydnerth**, yn addasu i'r heriau a achosir gan effeithiau newid hinsawdd, er mwyn darparu gwasanaeth diogel a dibynadwy i'n cwsmeriaid
- Gwerthfawrogi'r deunyddiau a thir rydym yn elwa ohonynt, gan gefnogi'r **economi gylchol** a **gwerth cymdeithasol**

Yn ôl ymchwil i randdeiliaid ac ymchwil i deithwyr, mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn brif flaenoriaeth, sydd â gofynion deddfwriaethol gan lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae gan y rheilffordd rhan enfawr i'w chwarae yn y broses o alluogi cymdeithas sero net fel dull llawer gwyrddach o symud pobl a nwyddau. Felly mae'n ffocws sylweddol ar gyfer buddsoddiad yn ystod Cyfnod Rheoli 7, gyda rhaglen eang o gamau datblygu cynaliadwy, yn cynnwys datgarboneiddio, ymdopi â'r tywydd ac addasiadau newid hinsawdd, bioamrywiaeth, a'r economi gylchol a gwerth cymdeithasol.

I gefnogi ein "ffordd i sero net" (datgarboneiddio ac ansawdd aer), byddwn yn rhoi ar waith cyfres o fentrau ymyrraeth ynni i leihau defnydd ynni. Bydd y rhain yn cynnwys gwres a phŵer wedi'u cyfuno, systemau oeri aer gwthiol, adnewyddu goleuadau ac optimeiddio systemau rheoli adeiladau. Mae ein trywydd datgarboneiddio'n adlewyrchu adolygiad annibynnol o'n cynlluniau i leihau carbon. Byddwn yn gweithio gyda Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd i benderfynu sut mae hyn yn perthyn i'w llinellau sylfaen rheoleiddiol.

Yn ystod Cyfnod Rheoli 7 byddwn hefyd yn dechrau'r broses o newid ein fflyd o gerbydau ffordd i 100 % cerbydau di-allyriadau, yn cynnwys gosod mannau gwefru mewn lleoliadau allweddol ar draws ein rhwydwaith a gan sicrhau bod ein cynlluniau'n gost-effeithiol. Byddwn hefyd yn edrych ar dreialu cerbydau hydrogen a mannau pweru. Fel rhan o'n gwaith i leihau allyriadau, byddwn yn symud at ddefnyddio peiriannau heb ddisel gyda'r nod o wella ansawdd aer ar hyd ein rhwydwaith i'n cydweithwyr a'n cwsmeriaid, a chymdogion y rheilffordd. Byddwn yn gweithio i

gynnal opsiynau cynaliadwy ar gyfer milltir gyntaf a milltir olaf teithiau ein teithwyr, gan atgyfnerthu cymwysterau gwyrdd y rheilffordd er mwyn annog mwy o deithiau, gweithio gyda chymunedau, a darparu mwy o fannau di-allyriadau, mannau gwyrdd a mannau ail-lenwi dŵr.

Byddwn yn datblygu mentrau i bennu sut y byddem yn datgarboneiddio'r rhwydwaith trwy gaffael ynni mewn ffyrdd amgen er mwyn cyfrannu at amcan y llywodraeth o gyrraedd carbon sero net erbyn 2050.  Mae'r gwaith hwn yn ymwneud â defnyddio tir segur a thoeau ar gyfer ynni adnewyddadwy ac edrych ar gytundebau preifat i brynu pŵer.

Rydym yn cydnabod ac yn profi effaith gynyddol newid hinsawdd ar ein rheilffordd. Byddwn yn cyflawni cynlluniau cydnerthedd fel y nodwyd yn ein cynllun ar gyfer ymdopi â'r tywydd a newid hinsawdd, ac yn sefydlu llwybrau addasu hirdymor. Mae hyn yn creu strategaeth ar gyfer cyflenwi rhwydwaith diogel a dibynadwy i'n cwsmeriaid, gan ganolbwyntio ar nifer o leoliadau risg uchel. Hefyd, bydd cydweithredu â thasglu risgiau tywydd cenedlaethol Network Rail yn ysgogi gwell ymateb a chydnerthedd ar y rheilffordd weithredol, gan alluogi i'n teithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau ddibynnu ar y gwasanaethau a disgwylient.

Byddwn yn gwella bioamrywiaeth trwy waith rheoli gwerthfawr ar ymyl y rheilffordd a defnyddio gwasanaethau ecosystemaidd ar ein tir, ynghyd â datblygu "seilwaith gwyrdd", fel toeau gwyrdd, terasau, pyllau dŵr â gwelyau cyrs a gerddi cymunedol mewn gorsafoedd i goridorau cynefinoedd a rhwydweithiau gan gynnwys coetiroedd a gwlyptiroedd.


Deallwn bwysigrwydd gwneud i'n hasedau bara. Byddwn yn arloesi er mwyn symud i ffwrdd o "gwneud, defnyddio, gwastraffu" i broses gylchol, gan barhau i ddefnyddio deunyddiau, lleihau ein hallyriadau carbon, ac arbed arian i drethdalwyr. Gellir cyflawni hyn drwy symudiadau o fewn y diwydiant rheilffordd ac ennill refeniw o gynnig gwasanaethau i drydydd partïon. Byddwn hefyd yn ceisio deall, gwerthfawrogi a galluogi "cylchogrwydd biolegol": y gwasanaethau ecosystemaidd a ddarperir gan natur. Byddwn yn ceisio treialu a mabwysiadau mesurau addas ar gyfer rheoli llifogydd, cyflenwi dŵr, ynni adnewyddadwy, sefydlogi argloddiau a bio-gynnyrch.

Yn olaf, bydd ein cynllun yn creu gwerth cymdeithasol i'r rheilffordd. O wneud y rheilffyrdd yn fwy cydnerth a dibynadwy, i osod mannau gwefrau yn y gorsafoedd a reolir gennym, ysgogwyd yr holl fuddion gan gymunedau a chwsmeriaid. Gan gyd-fynd â gofynion Llywodraeth Cymru a llywodraeth y DU, mae'r "gwerth cymdeithasol" a gyflenwir gan y rheilffordd wedi'i ddeall i olygu pethau gwahanol, gan ddibynnu ar anghenion y gymuned leol. Byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol a grwpiau i ddeall yr hyn sydd ei angen mwyaf ar y gymuned leol. Rydym yn cydnabod gwerth rhedeg rhwydwaith diogel a dibynadwy ac mae gennym gyfres o fetrigau a ddefnyddir i fesur a darparu'r buddion lleol hynny.


## Twf Cynaliadwy

Targedau *

| Cwmpas allyriadau carbon 1 a 2 | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Lleihau allyriadau carbon uniongyrchol ac anuniongyrchol NR | Amh. | -2 % | -5 % | -9 % | -14 % | -21 % |




| Unedau bioamrywiaeth | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Enillion bioamrywiaeth net | Amh. | 0 % | 1 % | 2 % | 3 % | 4 % |




** Mae'r sefyllfa ar ddiwedd 2023/34 (Cyfnod Rheoli 6) yn seiliedig ar ragolwg a luniwyd ym mis Chwefror 2024*

# Sut yr ydym wedi datblygu ein cynlluniau

## Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn amlinellu ein dull o ddatblygu cynlluniau ar gyfer Cyfnod Rheoli 7. Mae'n cynnwys crynodeb o'n gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid, a fu'n rhan hanfodol o'r gwaith datblygu cynllun, yn ogystal â rhoi gwybodaeth am ein dulliau o gyflawni ein gweithgareddau craidd sef adnewyddu a chynnal a chadw'r rheilffordd, gweithredu'r rheilffordd, a'r gweithgareddau sy'n cefnogi'r gwaith cyflawni hwnnw. Mae hefyd yn nodi ein prif ragdybiaethau o ran incwm, a chrynodeb ariannol cyffredinol o'n cynllun.

## Ein dull cynllunio ailadroddol

Buom yn datblygu ein cynlluniau ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 ers haf 2020. Rydym wedi cynnwys cydweithwyr ar draws y rhanbarth wrth inni dyfu aeddfedrwydd ein cynlluniau. Mae'r Cynllun Cyflenwi hwn yn dilyn saith cylch cynllunio ar gyfer Cyfnod Rheoli 7, gan symud o ragolygon cychwynnol o'r brig i lawr ar sail modelu cylch oes asedau, i gynlluniau cynhwysfawr o'r gwaelod i fyny sy'n cynnwys holl agweddau ar ein busnes rhanbarthol. Mae'r dull ailadroddol hwn wedi caniatáu inni addasu cynlluniau ac ymateb i'r wybodaeth ddiweddaraf. Mae'n cynnwys y cyllid sydd ar gael gan y Llywodraeth dros y pum mlynedd nesaf a'n safbwynt diweddaraf ar ragdybiaethau allweddol fel ein perfformiad tebygol a sefyllfa ein hasedau ar ddiwedd Cyfnod Rheoli 6, y galw am drenau i deithwyr a threnau nwyddau yn y dyfodol, a llwybr tebygol chwyddiant i'r dyfodol, a fu'n arbennig o bwysig o ystyried yr ansicrwydd ehangach a'r cyd-destun ariannol sy'n datblygu.

Mae ein cynllun yn alinio â'r gofynion a bennwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn y Fanyleb Allbwn Lefel Uchel (HLOS) a'r cyllid cyffredinol sydd ar gael gan Ddatganiad o'r Cyllid Sydd ar Gael (SoFA) Cymru a Lloegr. Hefyd, rydym wedi ystyried sut mae ein cynllun yn cefnogi amcanion trafnidiaeth Llywodraeth Cymru a'n cyrff is-genedlaethol arweiniol yn Lloegr. Yn ogystal, credwn fod y cynllun hwn yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn helpu i gyflawni targedau cynaliadwyedd hirdymor trwy ein buddsoddiad mewn cynaliadwyedd amgylcheddol a'n gwaith i barhau i weithredu'n ddiogel y seilwaith rheilffordd yng Nghymru.

Cafodd ein cynllun ei ddatblygu gan y rhanbarth, ond fel rhan o fframwaith cenedlaethol. Mae wedi elwa o gael sicrwydd gan swyddogaethau cenedlaethol Network Rail, yn enwedig yr Awdurdod Technegol, a thrwy'r cylchedd cynllunio rydym wedi datblygu ein cynllun i adlewyrchu canfyddiadau'r sicrwydd.

Gweithiasom i alinio ein cynlluniau gyda chynllun swyddogaethau eraill yn Network Rail. Rydym wedi ymgysylltu â'r gwaith o adolygu cynlluniau swyddogaethau eraill, ac wedi alinio ein cynlluniau â'r rhagdybiaethau cynllunio canolog. Rydym wedi rhannu cynnydd y gwaith cynllunio'n gyson â swyddogaethau gwasanaeth, fel Gweithrediadau'r Gadwyn Gyflenwi, er mwyn cynnal aliniad, ac wedi ymgysylltu â Gwasanaethau TG wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau.

Datblygasom ein cynlluniau ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 ar adeg o ansicrwydd sylweddol i'r diwydiant a'r economi ehangach. Mae hyn yn cynnwys cyd-destun heriol ac ansicr o ran chwyddiant, refeniw y diwydiant rheilffordd sy'n sylweddol is na'r hyn a ragwelwyd cyn y pandemig a phwysau ar ariannu ehangach y Llywodraeth, ochr yn ochr ag asedau sy'n heneiddio ac effeithiau newid hinsawdd. Bu'n rhaid inni wneud penderfyniadau anodd a chyfnewidiadau er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o'n harian a chyflawni dros ein cwsmeriaid a'n cymunedau, yn ystod Cyfnod Rheoli 7 ac yn y tymor hirach.

Mae ein cynllun wedi parhau i ddatblygu ers cyhoeddi'r Cynllun Busnes Strategol ym mis Mai 2023. Mae ein parodrwydd manwl ar gyfer cyflenwi yn ystod Cyfnod Rheoli 7 yn parhau i aeddfedu, er bod ein cynllun yn destun ansicrwydd ariannol a chostau uwch o hyd oherwydd y lefelau chwyddiant sy'n uwch nag a ragwelwyd.

Golyga hyn bod ein cynlluniau cyflenwi yn adlewyrchu ein safbwynt gorau a mwyaf diweddar ar y gweithgareddau y byddwn yn ymgymryd â hwy yn ystod Cyfnod Rheoli 7, ond yn anochel, bydd y cynlluniau hyn yn datblygu wrth inni ymateb i risgiau ac ansicrwydd yn ystod y pum mlynedd nesaf. Bydd angen arnom barhau i fod yn ystwyth er mwyn ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau yn ystod y cyfnod rheoli, a bydd angen ystwythder hefyd o ran y ffordd a gawn ein rheoleiddio.

Mae ein cynlluniau'n cynnwys rhoi symiau bach i'r neilltu (oddeutu 2 % o'r cynllun) o hyd. Mae'r rhain yn cydbwyso'r angen i bennu'r gweithgaredd a allai cefnogi prosesau cynllunio a chyflenwi effeithlon ac amserol, â'r anhawster o bennu'n union sut y byddwn yn gwario bob ceiniog o'n setliad ariannol fesul blwyddyn hyd ddiwedd y degawd. Rydym wedi adnabod cyfleoedd i gau'r symiau i lawr yn ystod y cyfnod rheoli, sy'n tynnu ar syniadau Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd a nodwyd yn ei Phenderfyniad Terfynol. Mae'r rhain yn cynnwys clustnodi cyllid rhaglenni cenedlaethol a meysydd allweddol eraill o wariant, fel y gellir ail-ddynodi unrhyw arian nas defnyddiwyd yn y meysydd hyn i feysydd blaenoriaeth eraill yn ein cynlluniau ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 lle bo angen.

Byddwn yn parhau i fonitro'r gwaith cyflenwi yn erbyn y cynllun wrth i'r cyfnod rheoli fynd rhagddo.


## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan hanfodol o'n dulliau busnes. Mae'n cynnig dealltwriaeth werthfawr o feddyliau, disgwyliadau a blaenoriaethau ein holl randdeiliaid, o deithwyr i gwmnïau trên, darparwyr i awdurdodau lleol.

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn cyfoethogi ein proses o wneud penderfyniadau, yn tyfu ein hatebolrwydd ac yn gwella ein gallu i ddeall a rhagweld y tueddiadau a safbwyntiau sy'n dod i'r amlwg a allai effeithio ar gynaliadwyedd ein rhanbarth ac felly'n peryglu ein gallu i wasanaethu ein cwsmeriaid. Gwyddom fod anghenion rhanddeiliaid yn newid o hyd, felly mae ein gwaith ymgysylltu parhaus trwy'r broses Adolygu Cyfnodol wedi galluogi rhanddeiliaid i ddylanwadu'n barhaus ar y cynlluniau a lunnir gennym. Maent yn ein helpu ni i ddeall sut mae angen ar ein rhanbarth addasu i dueddiadau a disgwyliadau sy'n newid, ac i wella'r gwasanaeth a ddarparwn.

Adeiladwyd ein Cynllun Cyflenwi ar sail ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid. Mae gennym amrywiaeth o ddulliau ymgysylltu sydd â gwrando ar ein cwsmeriaid, cymunedau, defnyddwyr a rhanddeiliaid wrth eu calon.

Rhanbarth Cymru a Gorllewin oedd y rhanbarth gyntaf i sefydlu panel herio gan randdeiliaid annibynnol ar gyfer Cyfnod Rheoli 7, gan ddilyn arferion gorau diwydiannau eraill, er mwyn craffu ar ein gwaith datblygu cynllun.




Ffigur 3: Ein dull ymgysylltu â rhanddeiliaid

Buom yn arwain y ffordd hefyd o ran ymchwil i deithwyr, gan weithio ochr yn ochr â Transport Focus i gomisiynu gwaith cynnal cyfweliadau â theithwyr a chipio eu hadborth ar flaenoriaethau ar gyfer Cyfnod Rheoli 7.

Ymgysylltasom â rhanddeiliaid mewn awdurdodau lleol, mentrau a diwydiant, gan gynnwys cwmnïau trenau i deithwyr a chwmnïau trenau nwyddau a defnyddwyr terfynol nwyddau, i lunio darlun cynhwysfawr o flaenoriaethau rhanddeiliaid ar gyfer ein cynllun. Mae'r broses ymgysylltu hon wedi parhau drwy gydol y gwaith datblygu cynllun Cyfnod Rheoli 7, gan lywio'n Cynllun Busnes Strategol a datblygiad ein cynllun yn dilyn Penderfyniad Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd.

Mae prif flaenoriaethau ein rhanddeiliaid, ynghyd â'r ffordd y maent yn mapio ein canlyniadau o ran gwerth, a sut y cawsant eu hadlewyrchu yn ein cynllun, wedi'u nodi ar y dudalen nesaf.

Rydym wedi ymrwymo i barhau â'r broses ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod Cyfnod Rheoli 7. Ar y cyd â'n panel herio, rydym yn datblygu rhaglen ymgysylltu ehangach yn ystod Cyfnod Rheoli 7, gan gynnwys parhau i gynnal ein panel herio, er mwyn adeiladu ar ein gwaith ymgysylltu hyd yma.

| | Blaenoriaeth rhanddeiliaid | Canlyniad o ran gwerth | Sut yr adlewyrchir hyn yn ein cynllun? |
|---|---|---|---|
|  | Ymdopi â'r tywydd ac addasiadau ar gyfer newid hinsawdd | Gwneud ein rheilffordd yn ffordd wyrddach i bobl deithio ac o gludo nwyddau | Gwariant wedi'i dynodi ar gyfer ymdopi â'r tywydd |
| | Cynnal lefel da o brydlondeb gwasanaethau | Mae ein rheilffordd yn ddiogel a dibynadwy bob amser | Gwelliannau o ran cyflenwi gwasanaethau trên |
| | Gwella hygyrchedd y rhwydwaith | Yn cyflenwi gwasanaeth cwsmeriaid gwych yn gyson i bawb | Gwella hygyrchedd mewn gorsafoedd, gan gynnwys toiledau Changing Places mewn gorsafoedd a reolir |
|  | Lleihau oedran asedau trwy waith adnewyddu | Mae ein rheilffordd yn ddiogel a dibynadwy bob amser | Rhaglen adnewyddu gwerth £2.6 biliwn |
| | Gwella profiad teithwyr mewn gorsafoedd | Yn cyflenwi gwasanaeth cwsmeriaid gwych yn gyson i bawb | Gwelliannau dynodi llwybr a gwybodaeth yng ngorsafoedd Paddington a Reading |
| | Cynnal a chadw'r asedau presennol | Mae ein rheilffordd yn ddiogel a dibynadwy bob amser | Buddsoddi £1.6 biliwn mewn gwaith cynnal a chadw |
| | Diogelwch i deithwyr | Mae ein rheilffordd yn ddiogel a dibynadwy bob amser | Gweithredu fframwaith newydd i reoli risgiau diogelwch |
|  | Economi cylchol a gwerth cymunedol | Gwneud ein rheilffordd yn ffordd wyrddach i bobl deithio ac o gludo nwyddau | Canolbwyntio'n bwrpasol ar economi cylchol a gwerth cymunedol |
| | Gwelliannau i ddiogelwch y cyhoedd (h.y. croesfannau gwastad) | Mae ein rheilffordd yn ddiogel a dibynadwy bob amser | Gwelliannau i groesfannau gwastad, yn cynnwys arwyddion a diweddaru signalau |
| | Gwelliannau i ddiogelwch gweithwyr ar y trac | Mae ein rheilffordd yn ddiogel a dibynadwy bob amser | Rhaglenni diogelwch gweithwyr ar y trac |
| | Rheoli bioamrywiaeth a'r amgylchedd | Gwneud ein rheilffordd yn ffordd wyrddach i bobl deithio ac o gludo nwyddau | Gwella bioamrywiaeth 4 % |

Ffigur 4: Blaenoriaethau rhanddeiliaid a'u haliniad â'n Cynllun Cyflenwi

## Rheoli asedau

Ein huchelgais yw cyflenwi rheilffordd sy’n perfformio’n dda i’n teithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau. Rydym yn ymwybodol o’r cydbwysedd rhwng anghenion yr ased o safbwynt stiwardiaeth a her fforddiadwyedd. Bwriada ein prosesau rheoli ar gyfer gwaith adnewyddu a gwaith cynnal a chadw yn ystod Cyfnod Rheoli 7 gydbwyso a rheoli ein prif flaenoriaethau, gan gyflenwi cymaint â phosibl y canlyniadau megis diogelwch a pherfformiad gwasanaethau trên am y cyllid sydd ar gael.

Caiff ein hasedau eu rheoli fel system, a chafodd ein cynllun ei adolygu’n gynyddol gan ein cydweithwyr yn yr adrannau cynnal a chadw, gweithrediadau, perfformiad a chynllunio mynediad, er mwyn cyflawni aliniad cyfannol. Gwnaethom gyfnewidiadau allweddol yn ein cynlluniau adnewyddu, i fuddsoddi arian mewn mannau risg uchel er mwyn inni allu cyflawni nodau diogelwch, perfformiad a dibynadwyedd. Adolygasom yn ofalus gyflwr asedau sy’n dirywio ar draws y rhanbarth ac edrych ar ardaloedd lle gallwn gryfhau trefnau cynnal a chadw, gan sicrhau y gellir ail-flaenoriaethu arian adnewyddu yn rhywle arall, yn arbennig ar gyfer cefnogi’r gwaith o wella perfformiad ar linellau allweddol y llwybr. Rydym yn parhau i adolygu ein cynlluniau er mwyn cyflenwi’r gwasanaethau gorau i deithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau.

Mae ein dull a arweinir gan y farchnad wedi helpu i lywio’r penderfyniadau a wnaed i wella fforddiadwyedd yng ngoleuni’r her refeniw a chost sy’n wynebu’r diwydiant. Rydym hefyd wedi ystyried gwerth cymdeithasol ac economaidd ehangach ein rheilffordd, gan gynnwys y llinellau hynny lle mae’r rheilffordd yn cyflawni swyddogaeth gymdeithasol hollbwysig, neu’n helpu i gefnogi llifoedd nwyddau, wrth sicrhau ymyrraeth briodol ar asedau ledled y rhanbarth. Yn ystod Cyfnod Rheoli 7, rydym wedi diweddaru ein dull rheoli asedau i gynnwys mwy o ymyraethau cost cyfalaf is o’r math “cynnyrch dichonol lleiaf”. Lle bo’n briodol, rydym yn mabwysiadu trefnau cynnal a chadw estynedig er mwyn ymestyn oes asedau yn ystod Cyfnod Rheoli 7, a rhoesom arian i’n sefydliad cynnal a chadw ar gyfer y gweithgaredd hwn. Byddwn yn datblygu ymhellach ein galluogrwydd cynnal a chadw ar sail risg i sicrhau y cyflawnir gweithgareddau cynnal a chadw effeithlon a diogel sy’n achosi llai o darfu.

Mae ein cynlluniau wedi bod yn destun prosesau adolygu a sicrwydd Awdurdod Technegol Network Rail. Mae’r gwaith hwn wedi cynnwys rhoi sicrwydd i gadarnhau ein gwaith lliniaru diogelwch, ar sail canfyddiadau'r asesiadau fframwaith asesu risg tei bô diogelwch a’r newidiadau i’n cynlluniau o’u herwydd, ac mae ein cynllun yn parhau i gyflawni diogelwch i’n teithwyr a’n pobl yn unol â Chyfnod Rheoli 6. Mae’r fframwaith tei bô yn ein galluogi ni i asesu a chefnogi’r gwaith parhaus o fonitro a chynnal ein proffil risg yn ystod Cyfnod Rheoli 7 ar draws ein holl asedau. Mae’n ein galluogi ni i ddeall manylion yr ased a’r risgiau diogelwch yr ydym yn debygol o’u profi yn ystod Cyfnod Rheoli 7 oherwydd lleihau gweithgareddau adnewyddu yn ein cynlluniau. Defnyddiasom y fframwaith hwn i gychwyn ar gyfer asesu proffiliau risg diogelwch ein hasedau strwythurol. Byddwn yn defnyddio fframweithiau tei bô diogelwch ar gyfer yr holl asedau er mwyn llywio ymhellach ein cynlluniau ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 a Chyfnod Rheoli 8.

Rydym yn buddsoddi i wella perfformiad mewn mannau allweddol, gan gynnwys adnewyddu holl wifrau’r llinell uwchben rhwng Paddington ac Airport Junction er mwyn gwella diogelwch y cyhoedd a dibynadwyedd gwasanaethau trên, ac adnewyddu system trawst dargludo’r llinell uwchben yn Nhwnnel Hafren er mwyn caniatáu i dyniant trydanol barhau i weithredu trwy’r ased hwn sy’n hollbwysig i gysylltedd yr undeb.

Mae ein cynllun adnewyddu traciau yn rhoi ystyriaeth ofalus i'r gofynion perfformiad ac yn ymgorffori gwaith mewn mannau â risg uchel o ran cyfyngiadau cyflymder, gan gynnwys lleihau'r nifer o switsys a chroesiadau dyfnder llawn ar goridorau cyflymder uchel sy'n agored i gyfyngiadau cyflymder yn ystod misoedd yr haf. Mae ein cynllun adnewyddu traciau'n canolbwyntio'n gryf ar adnewyddu llinellau plaen ar sail eu cyflwr, gyda'r nod o leihau'r ymdrechion cynnal a chadw sylweddol sydd eu hangen ar hyn o bryd i gadw'r asedau hyn yn ddibynadwy.

Yn ystod Cyfnod Rheoli 6, buddsoddom arian sylweddol mewn gwaith cynnal a chadw draeniau er mwyn alinio ag argymhellion yr Arglwydd Robert Mair a'r Fonesig Julia Slingo, sy'n parhau i Gyfnod Rheoli 7. Mae cael timau draeniau dynodedig yn cyflawni mwy o waith ar draws y rhanbarth yn yr adran cynnal a chadw yn ategu ein rhaglen adnewyddu wedi'i flaenoriaethu.

Mae defnyddio mwy ar ddata a ddaw o dechnoleg yn ddyhead allweddol ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 a bydd ein strategaeth adnewyddu'n galluogi i hynny ddigwydd. Er enghraifft, bydd y gwaith a fwriadwyd i adnewyddu'r traciau yn Westbury yn gwella dibynadwyedd ac yn galluogi ein timau cynnal a chadw i ddefnyddio dulliau monitro cyflwr o bell. Rydym yn edrych ar gyfleoedd i ddefnyddio data a thechnoleg yn well ar draws yr holl fathau o asedau a meysydd busnes, gan gynnwys gwaith monitro batris o bell yn ein cynllun telathrebu er mwyn lleihau nifer yr ymweliadau ag ochr y trac.

Yn ystod Cyfnod Rheoli 7, rydym yn buddsoddi mwy o arian mewn offer i ddatgelu methiannau yn y cloddiau ac offer geotechnegol, er mwyn alinio i argymhellion yr Arglwydd Robert Mair. Mae'r dechnoleg hon yn ein helpu ni i wella ein gallu i ymdopi pan fydd cloddiau'n methu oherwydd glaw eithafol a newid hinsawdd, a gallwn wneud gwell benderfyniadau wrth reoli'r anawsterau hyn yn rhagweithiol. Mae ein cydweithwyr yn yr adran rheoli gweithrediadau llwybrau'n hollbwysig i lwyddiant y cyflwyniad hwn ac rydym yn gweithio'n agos i wneud y dechnoleg hon mor effeithiol â phosibl.

Mae galluogi ein cydweithwyr yn y cwmnïau trên i gynnal eu fflyd ac offer yn rhannau hanfodol o'n rhwydwaith yn faes â ffocws ar gyfer Cyfnod Rheoli 7, a byddwn yn buddsoddi mewn cynlluniau depo ar gyfer Trafnidiaeth Cymru a GWR.

Bu ein tîm rheoli asedau yn cydweithio â'n tîm cynnal a chadw i sicrhau bod ein cynllun adnewyddu yn alinio i'n cynllun cynnal a chadw yn ystod Cyfnod Rheoli 7. Cydnabyddwn fod y newidiadau i'n methodoleg o ran ymyrryd mewn asedau'n golygu bod angen mwy o waith cynnal a chadw.

Byddwn yn cynnal dadansoddiad manwl er mwyn deall nifer a chymhwysedd y gweithwyr a fydd eu hangen ar gyfer y gwaith cynnal a chadw, gan ystyried y gwaith ychwanegol sydd ei angen oherwydd y newidiadau i'r cynllun adnewyddu. Mae ein dadansoddiad yn cynnwys dadansoddiad cymharol o effaith gweithgareddau adnewyddu yn ystod Cyfnod Rheoli 6 ar feintiau gwaith cynnal a chadw lefel swydd safonol, gan ddefnyddio'r wybodaeth honno i bennu'r cynnydd sydd ei angen yn ystod Cyfnod Rheoli 7. Rydym hefyd yn cynnwys fel ffactor y gwelliannau cynhyrchiant a ddisgwylir trwy roi ar waith dulliau moderneiddio, mabwysiadu arferion cynnal a chadw ychwanegol ar sail risg ac sy'n canolbwyntio ar ddibynadwyedd, gyda'r nod o leihau nifer yr archwiliadau diangen.

Mae ein gweithrediadau cynnal a chadw ac adnewyddu a gwariant fesul ased ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 fel y ganlyn:

Tabl 1: Gweithgareddau a gwariant adnewyddu a chynnal a chadw (£ miliwn, prisiau arian parod ôl-effeithlon gan gynnwys risg, cyfeintiau llinellol)

| Ased | Blaenoriaethau Cyfnod Rheoli 7 | Cyfaint | Gwariant |
|---|---|---|---|
| **Trac** | Adnewyddu cyffordd Westbury South, adnewyddu switsys a chroesiadau yn Nyffryn Tafwys ac adnewyddu cyffordd Gorllewin Caerdydd | 479km o linell blaen 308 o unedau switsys a chroesiadau | £681 miliwn |
| **Oddi ar y trac** | Adnewyddu ffensys gan leihau nifer yr achosion o anifeiliaid yn crwydro ar y trac, rheoli llystyfiant yn mynd i'r afael â phroffil risg a choed peryglus | 647km | £96 miliwn |
| **Signalau** | Ailosod signalau yn ardal Plymouth, adnewyddu caledwedd ETCS[3] Cambrian | 3,514 o SEU[4] | £422 miliwn |
| **Croesfannau gwastad** | Adnewyddu ac ymestyn hyd oes, ac ymyriadau i sicrhau diogelwch defnyddwyr croesfannau gwastad | 101 o gyfeintiau | £110 miliwn |
| **Strwythurau** | Strwythurau â risg uwch o sgwrio a thwneli | 46,146m$^2$ | £340 miliwn |
| **Cloddiau** | Gwaith torri carreg a phridd, a gwaith cloddio mawr yn Teignmouth ac Aber Afon Hafren | 5,649 o gyfeintiau | £308 miliwn |
| **Draeniau** | Gwaith lliniaru mewn ardaloedd lle ceir llifogydd dro ar ôl tro ac i fynd i'r afael ag anawsterau draenio'r trac | 125,002m | £77 miliwn |
| **Adeiladau** | Gwaith mewn depos gwaith cynnal a chadw ysgafn ar drenau, gwaith mawr yng ngorsafoedd Exeter St Davids a Bristol Temple Meads | 263,530m$^2$ | £301 miliwn |
| **Trydaneiddio a Pheiriannau Sefydlog** | Trawsnewid gwifrau llinell uwchben a thynnu pwysau cydbwyso Paddington - Airport Junction, adnewyddu system gyffwrdd uwchben anhyblyg Twnnel Hafren, gwaith yng ngorsaf bwmpio Sudbrook ac adnewyddu HABD[5] | 478 o gyfeintiau | £189 miliwn |
| **Telathrebu** | Adnewyddu systemau gwybodaeth i gwsmeriaid yng ngorsafoedd Paddington a Reading, diweddaru systemau batri a gwefru'r rhwydwaith telathrebu | 5,295 o gyfeintiau | £64 miliwn |
| **Gwaith adnewyddu arall** | Diogelwch gweithwyr ar y trac, diogeledd, cynaliadwyedd amgylcheddol ac adnewyddu eiddo masnachol / swyddfeydd | Amh. | £136 miliwn |
| **Cynnal a chadw** | Cynnal a chadw asedau'n ddiogel er mwyn cyflenwi gwasanaethau trên dibynadwy | Amh. | £1,578 miliwn |

[3] ETCS: System Rheoli Trenau Ewropeaidd (European Train Control System), math o dechnoleg signalu
[4] SEU: Uned Cyfwerth â Signal (Signalling Equivalent Unit), mesur o gyfaint signalau
[5] HABD: Synhwyrydd Bocs Echel Poeth (Hot Axle Box Detector), system ar ochr y llinell i synhwyro namau ar olwynion trên

## Gweithrediadau a chymorth

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'n cynlluniau ar gyfer gweithrediadau a chymorth yn ystod Cyfnod Rheoli 7. Maent yn cynnwys y gweithgareddau sydd eu hangen i weithredu'r rheilffordd, fel signalau a rheoli gwasanaethau trên, a'n swyddogaethau cymorth busnes.

### Gweithrediadau

Mae gweithrediadau wrth galon popeth a wnawn:

- Yr amserlen yw ein haddewid i deithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau
- Mae'r ffordd a weithredwn yr amserlen honno'n cysylltu'n uniongyrchol â boddhad
- Mae lefel y gwasanaeth a gynigiwn yn pennu amledd ein gwaith cynnal a chadw, amserau mynediad ac amserlenni gwaith adnewyddu.

Hoffem gyflenwi gweithrediadau sy'n cynnig gwasanaethau di-dor i'n cwsmeriaid, gwasanaeth sy'n lliniaru'r risg o oedi; a lle bydd oedi'n digwydd, system sy'n adfer yn gyflym ac yn lleihau'r effaith crychdonni. Yn unol â gweledigaeth Network Rail ar gyfer Gweithrediadau yn y 21ain Ganrif, hoffem ddatblygu gallu ein cydweithwyr yn yr adran gweithrediadau i arwain a datblygu'r proffesiwn, gan ddenu talent newydd ac arloesedd, fel bod gennym y lefel cywir o adnoddau i gyflawni ein huchelgeisiau.

Cydnabyddwn bwysigrwydd yr angen i addasu i'r byd digidol drwy ddefnyddio systemau rheoli traffig a rheolaethau trên digidol. Mae'n gwella perfformiad cymaint â phosibl wrth i drenau lifo ar draws y rhwydwaith, yn rhedeg y maint mwyaf posibl o drwybwn a ellir ei gefnogi gan y trac presennol ac yn addasu mewn amser real pan fydd amodau'r rhwydwaith yn newid er mwyn hwyluso adferiad cyflym. Byddwn yn rhoi technolegau rheoli traffig ar waith yng ngweddill y rhanbarth, a fydd yn caniatáu inni redeg mwy o drenau'n ddiogel ac yn fwy dibynadwy, ac i reoli'r rhwydwaith rheilffordd yn fwy effeithlon i deithwyr a chwsmeriaid.

Yn ystod Cyfnod Rheoli 6, buddsoddasom yn ein gwaith cyflenwi gweithrediadau er mwyn darparu gwasanaethau trên gwell ac i wella ein gwaith rheoli gorflinder yn ein gweithlu gweithrediadau. Rydym wedi rhannu manylion y gwelliannau hyn gyda Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffordd trwy ei hadolygiadau rheolaidd o'n prosesau cynllunio busnes a chyflenwi perfformiad yn ystod Cyfnod Rheoli 6.

Mae'r newidiadau hyn wedi cynyddu nifer ein gweithwyr yn yr adran gweithrediadau. Rydym wedi cryfhau ein timau signalu i leihau'r tarfu ar berfformiad oherwydd absenoldeb staff yr adran gweithrediadau, wedi cyflwyno timau ymateb newydd ac wedi cryfhau ein timau rheoli er mwyn lleihau oedi yn ystod adegau pan ymyrrir ar wasanaethau ac i amddiffyn gweithrediad gwasanaethau trên ar linell Elizabeth, ac wedi ychwanegu at ein tîm mesur perfformiad a'n tîm gwella er mwyn deall yn well yr hyn sy'n achosi oedi a lliniaru ar ei gyfer. Hefyd, er mwyn mynd i'r afael â phryderon am orflinder, rydym wedi cyflwyno gweithwyr ychwanegol i'n timau gweithrediadau.

Yn ystod Cyfnod Rheoli 7 byddwn yn parhau â'r gwaith i roi adnoddau digonol i'n swyddogaethau gweithrediadau. Byddwn yn datblygu cynigion tymor hirach a fydd yn ystyried proffil demograffig ein gweithlu. Bydd hyn o fudd i gydnerthedd a pherfformiad y gwasanaeth,

ac yn lleihau risg gorflinder ymysg ein signalwyr, a fydd yn arwain at ganlyniadau gwell o ran iechyd a diogelwch.

Byddwn yn rheoli ein swyddi gwag, a gan weithio gyda chydweithwyr byddwn yn llenwi'r bylchau ac yn rhoi cynigion hyfforddiant perthnasol yn eu lle. Byddwn yn datblygu prosesau ystwyth o sicrhau adnoddau er mwyn rheoli unrhyw ddiffyg rhwng nifer y signalwyr sy'n gadael y busnes a nifer y cydweithwyr newydd sy'n cymhwyso'n llawn.

Cydnabyddwn bwysigrwydd cynnal lefelau uchel o gymhwysedd a galluogrwydd a byddwn yn parhau i ddefnyddio dyddiau efelychu a datblygu i gefnogi'n cydweithwyr, gan gynnwys croesawu'r defnydd cynyddol o dechnoleg trwy reolaeth draffig. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'n llawn y cyfleusterau efelychu signalau estynedig yn y rhanbarth i gefnogi cymhwysedd a galluogrwydd, gan gynnwys y cyfleusterau hyfforddi gweithrediadau'n seiliedig ar lwybr sydd wedi agor ym Mryste a Chasnewydd.

Mae ein hystafelloedd rheoli wrth galon ein busnes, yn gweithio i weld ein trenau'n rhedeg ar amser ac i ymdopi â digwyddiadau wrth iddynt godi. Byddwn yn datblygu cynlluniau gwella ar gyfer y gweithrediad hollbwysig hwn, ac yn monitro'n barhaus ein perfformiad a'n cyflawniad o'r amserlen. Byddwn yn defnyddio data i ganfod gwelliannau i'w cynnwys yn yr amserlen, er mwyn cyflenwi rheilffordd sy'n perfformio'n dda iawn ac y mae ein teithwyr yn gallu dibynnu arni.

**Cymorth**

Mae ein swyddogaethau cymorth yn cynnwys timau rhanbarthol ym meysydd cyllid, adnoddau dynol, arweinyddiaeth iechyd, diogelwch a'r amgylchedd, buddsoddi, masnachol a Chyflawni Cyfalaf. Ar lefel llwybr, mae cymorth yn cynnwys timau'r gorsafoedd a reolir gennym, y tîm cynllunio llwybrau, tîm perfformiad a'r tîm cysylltiadau cwsmeriaid. Rydym yn parhau i graffu'n agos ar adnoddau ein swyddogaethau canolog, fel nad oes gwastraff ynddynt a'u bod yn cynnig gwerth i'r timau llwybr a'r timau cyflenwi a gefnogir ganddynt.

Yn ystod Cyfnod Rheoli 6, rhoesom ein model "Client Deallus" ar waith yn ein tîm Cyflawni Cyfalaf ar gyfer ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi. Mae'r model yn cyflawni effeithlonrwydd sylweddol er mwyn gwneud ein prosesau cyflenwi gwaith adnewyddu yn fwy cost-effeithiol.

Yn ystod Cyfnod Rheoli 7, ceir nifer fach o gynyddiadau a dargedwyd mewn costau cymorth, wedi'u halinio â'r gwaith o gyflenwi gwelliannau busnes ehangach a / neu ofynion polisïau'r llywodraeth:

- Byddwn yn buddsoddi mewn gwella'r prosesau rheoli amgylcheddol, gydag adnoddau ychwanegol i reoli gwelliannau i fioamrywiaeth a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth, ynghyd â rheolaeth amgylcheddol, datgarboneiddio a gweithgareddau gwerth cymunedol
- Rydym yn cyflwyno tîm rheoli data i gefnogi ein system newydd ar gyfer optimeiddio eiddo yn ystod Cyfnod Rheoli 7: mae hwn yn alluogwr allweddol ar gyfer cyflenwi effeithlonrwydd sy'n ymwneud ag eiddo.
- Byddwn yn buddsoddi mewn gwaith i gau croesfannau gwastad er mwyn lleihau risgiau diogelwch.

Rydym yn parhau i adolygu strwythur ein sefydliad, er mwyn parhau i fod y maint cywir ac mor effeithlon â phosibl yn ystod Cyfnod Rheoli 7, yn enwedig ein gweithgareddau nad ydynt yn rheng-flaen.

## Incwm

Daw ein hincwm o'r arwystlon a delir gan gwmnïau trên (teithwyr a nwyddau) i ddefnyddio'r rhwydwaith rheilffyrdd ac incwm o'n hasedau eiddo, fel incwm rhenti yn y gorsafoedd a reolir gennym. Hefyd, rydym yn derbyn oddeutu dau draean o'n hincwm trwy grantiau gan y llywodraeth, yn lle ffioedd mynediad, a gytunir trwy'r broses adolygu cyfnodol.

Mae ein hincwm o godi am fynediad yn adlewyrchu'r rhestrau prisiau diweddaraf a'r rhagolygon traffig ar gyfer Cyfnod Rheoli 7, gan gynnwys cyflwyno Grand Union Trains fel cwmni trên mynediad agored newydd yn hwyrach yng Nghyfnod Rheoli 7. Mae ein rhagolygon hefyd yn adlewyrchu'r targed ar gyfer twf nifer y trenau nwyddau yn ein cynllun.

Mae ein rhagolwg incwm eiddo wedi'i gysylltu'n agos â'n buddsoddiad yn ein portffolio eiddo, yn arbennig ein gwaith adnewyddu sy'n creu refeniw. Bwriadwn gefnogi ein busnes a chyfrannu at ein perfformiad ariannol drwy dyfu ein refeniw o fanwerthu, hysbysebion, cwsmeriaid sy'n parcio ceir, nwyddau, canfod a sicrhau refeniw o werthiannau tir, gwerth a rannwyd, hawddfreintiau a chyfleoedd datblygu, a phartneru gyda'n cwmnïau trên, asiantaethau cymunedol lleol a darparwyr.

Ymdrechwn i greu mannau sy'n cynnig profiad gwych i'n teithwyr a defnyddwyr trenau nwyddau, gan wella cyfleusterau yn y gorsafoedd a reolir gennym, er mwyn denu manwerthwyr o ansawdd a chynyddu nifer y cwsmeriaid, yn cynnig profiad manwerthu lle bydd ein gorsafoedd yn gyrchfannau o ddewis, yn rhoi cyfleusterau mynediad a thir i gwsmeriaid cludo nwyddau er mwyn helpu iddynt dyfu eu busnesau, ac uwchgynllunio mewn dinasoedd rhanbarthol i gynnig budd cymunedol a gwella gwerth asedau.

## Crynodeb ariannol

Mae’r tablau canlynol yn dangos ein rhagolygon gwariant ac incwm ar gyfer yr adrannau gweithrediadau, cynnal a chadw, cymorth ac adnewyddu yn ystod Cyfnod Rheoli 7.

Tabl 2: Gwariant ôl-effeithlon Cyfnod Rheoli 7 (£ miliwn, prisiau arian parod)

| Manylion gwariant | Diwedd Cyfnod Rheoli 6 | Llinell sylfaen Cyfnod Rheoli 7 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | Cyfanswm |
| Gweithrediadau a chymorth | 167 | 188 | 178 | 178 | 176 | 178 | 898 |
| Cynnal a chadw | 329 | 333 | 312 | 308 | 306 | 320 | 1,578 |
| Costau a chyfraddau’r diwydiant (heblaw'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig)[6] | 41 | 43 | 43 | 49 | 50 | 51 | 236 |
| Adnewyddu | 605 | 527 | 542 | 539 | 483 | 464 | 2,556 |
| Cyllid risg[7] | 0 | 0 | 7 | 36 | 77 | 93 | 213 |
| Gwariant dynodedig | 191 | 224 | 234 | 236 | 235 | 238 | 1,166 |
| **Cyfanswm y gwariant (heblaw Trydan ar gyfer Tyniant)** | **1,334** | **1,315** | **1,316** | **1,346** | **1,327** | **1,345** | **6,648** |
| Trydan ar gyfer Tyniant (EC4T) | 98 | 70 | 65 | 70 | 70 | 71 | 346 |

Tabl 3: Incwm Cyfnod Rheoli 7 (£ miliwn, prisiau arian parod)

| Manylion incwm | Diwedd Cyfnod Rheoli 6 | Llinell sylfaen Cyfnod Rheoli 7 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2023/24 | 2024/25 | 2025/26 | 2026/27 | 2027/28 | 2028/29 | Cyfanswm |
| Incwm codi tâl[8] | 271 | 306 | 310 | 312 | 329 | 324 | 1,580 |
| Incwm arall[9] | 125 | 144 | 154 | 158 | 162 | 166 | 784 |
| Grant rhwydwaith | 973 | 880 | 840 | 864 | 822 | 841 | 4,247 |
| Costau Atodlen 4 ac Atodlen 8 net | -166 | -19 | -3 | -3 | -3 | -3 | -31 |
| Incwm dynodedig | 132 | 3 | 16 | 16 | 16 | 17 | 67 |
| **Cyfanswm yr incwm (heblaw Trydan ar gyfer Tyniant)** | **1,334** | **1,315** | **1,316** | **1,346** | **1,327** | **1,345** | **6,648** |
| Trydan ar gyfer Tyniant (EC4T) | 99 | 70 | 65 | 70 | 70 | 71 | 346 |

Wrth gwblhau’r cynllun cyflenwi hwn, ailddosbarthwyd rhywfaint o wariant, fel y cytunwyd gyda'r Swyddfa Rheoleiddio’r Rheilffyrdd, rhwng gweithrediadau, cynnal a chadw, a chymorth sy’n

[6] Mae costau a chyfraddau’r diwydiant yn cynnwys Cyfraddau Cumulo, tanysgrifiad i Swyddfa Rheoleiddio’r Rheilffordd a chymhorthdal y Rail Delivery Group
[7] Cyllid risg wedi’i dynnu lawr o gostau gweithrediadau, cymorth, cynnal a chadw ac adnewyddu
[8] Mae incwm codi tâl yn cynnwys mynediad sefydlog i’r trac, mynediad amrywiol i’r trac a thaliadau defnyddio mynediad i drydan ar gyfer y cwmnïau trên a’r cwmnïau trenau nwyddau
[9] Mae incwm arall yn cynnwys incwm masnachol, incwm o werthu eiddo ac incwm rhenti

golygu na ellir cymharu’r categorïau hyn yn uniongyrchol gyda ein ymateb i'r Drafft Mesur neu ein Cynllun Cyflenwi Strategol Cyfnod Rheoli 7.

# Risgiau a chyfleoedd

Mae gennym broses ddiffiniedig i reoli risg yn rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr er mwyn sicrhau ein bod ni'n rheoli ein risgiau a gwireddu ein ffactorau llwyddiant hanfodol fel y diffiniwyd ar ein cerdyn sgôr rhanbarthol. Mae rheoli risg yn ddisgyblaeth sy'n rhoi sicrwydd i sefydliad y bydd yn cyflawni ei ffactorau llwyddiant hanfodol drwy beidio â dioddef o ganlyniad i ddigwyddiadau annisgwyl neu anfwriadol oherwydd diffyg gwelededd, gwybodaeth neu reolaeth. Mae'n broses barhaus sy'n datblygu; yn ceisio'n rhagweithiol i wneud y defnydd gorau o gyfleoedd ac i leihau bygythiadau cymaint â phosibl. Yn rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr, rydym yn canolbwyntio ar greu gwerth yn ogystal â'i amddiffyn trwy ein proses rheoli risg, sydd wedi'i alinio â safon a phroses rheoli risg ISO 31000. Mae mesurau lliniaru ar waith ar gyfer ein risgiau, a byddwn yn parhau i fod yn ystwyth a hyblyg er mwyn ymateb i amodau sy'n newid yn ystod Cyfnod Rheoli 7.

Mae ein prif risgiau a mesurau lliniaru ar gyfer Cyfnod Rheoli 7 wedi'u crynhoi fel y ganlyn:

Tabl 4: Prif risgiau a mesurau lliniaru

| Disgrifiad o'r risg | Enghreifftiau o fesurau lliniaru |
|---|---|
| Chwyddiant / prisiau mewnbwn: mae chwyddiant cyffredinol a'n chwyddiant prisiau mewnbwn ein hun yn uwch nag y rhagdybiwyd yn y Datganiad o'r Cyllid sydd ar Gael sy'n effeithio ar y sylfaen costau / prisiau mewnbwn, gan gynnwys effaith ôl-fynegi | Diweddariad cadarn o'r cynllun busnes bob chwarter sy'n cynnwys y weithrediaeth ranbarthol, gan gynnwys adolygiadau gan Brif Swyddogion Cyllid y grwpiau a Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd. Rheoli costau'n barhaus, defnyddio cyllid risg |
| Perfformiad trenau: mae perfformiad trenau yn is nag a ragwelwyd | Alinio a chydweithredu cadarn yn y diwydiant, a Strategaethau Cyd-berfformio ystyrlon |
| Effeithlonrwydd: cyfleoedd effeithlonrwydd heb eu gwireddu | Olrhain effeithlonrwydd yn fanwl a'i llywodraethu, datblygu effeithlonrwydd yn barhaus. Cynllunio ar gyfer gorberfformio fel bod gennym fentrau ar waith i ymdrin ag unrhyw ddiffygion |
| Ymdopi â'r tywydd / newid hinsawdd: mae digwyddiadau'n ymwneud â'r tywydd yn achosi lefelau uchel o darfu i wasanaethau, costau ac effaith gwael ar enw da | Buddsoddi mewn addasiadau ar gyfer ymdopi â'r tywydd a newid hinsawdd, ymateb yn gadarn i ddigwyddiadau |
| Diogelwch: materion diogelwch annisgwyl yn codi yn ystod Cyfnod Rheoli 7 | Defnyddio fframwaith asesu risg tei bô diogelwch, cyfyngiadau gweithredol, cyllid risg i gynyddu gwariant lle bo angen |
| Diwedd Cyfnod Rheoli 6: mae methu â chwblhau Cyfnod Rheoli 6 fel y cynlluniwyd yn rhoi pwysau ychwanegol ar gynlluniau Cyfnod Rheoli 7 (ariannol ac allbynnau) | Cyflenwi a llywodraethu cynllun busnes 2023/24 a chynllunio'n gadarn ar gyfer y cyfnod pontio |

| Disgrifiad o'r risg | Enghreifftiau o fesurau lliniaru |
|---|---|
| Y gallu i gyflenwi, gan gynnwys risg bregusrwydd cyflenwyr: oedi prosiectau a'r codiadau cost cysylltiedig, gan gynnwys y prosiectau technoleg / signalau cymhleth | Adolygu'r gallu i gyflenwi, gor-gynllunio er mwyn tanddefnyddio cyllid cyn lleied â phosibl. Defnyddio model cyflawni cyfalaf Client Deallus i gadw costau a gwaith cyflenwi dan reolaeth |
| Incwm: lefelau incwm is (incwm codi tâl ac incwm eiddo) oherwydd llai o wasanaethau a llai o ddefnyddwyr | Rhagdybiaethau incwm i ddefnyddio'r rhagolygon diweddaraf ar gyfer niferoedd teithwyr a meintiau traffig, defnyddio cyllid risg |
| Diwygio'r diwydiant: mae oedi i'r broses o ddiwygio'r diwydiant yn effeithio ar ein gallu i gyflawni cynlluniau Cyfnod Rheoli 7 | Bwrdd effeithlonrwydd y diwydiant a mentrau eraill i ddatblygu cydweithredu yn y diwydiant er mwyn gwneud gwelliannau cyn dechrau ar y broses ddiwygio |
| HS2: tarfu oherwydd adeiladu cyfnewidfa HS2 / prif linell Great Western yn Old Oak Common | Cynlluniau wrth gefn cadarn, datblygu amserlen traws-ddiwydiannol, mesurau lliniaru seilwaith a gwasanaethau o ran perfformiad (ariannwyd gan HS2 Ltd), ymateb yn gadarn i ddigwyddiadau |
| Lleihau carbon: methu â chyrraedd ein targedau  o ran lleihau carbon | Ymyraethau ynni i leihau defnydd. Y broses o drawsnewid 100 %  o'r fflyd cerbydau ffordd a pheiriannau i rai sero allyriadau yn dechrau'n ystod Cyfnod Rheoli 7. Mentrau caffael ynni i bennu sut y byddwn yn datgarboneiddio trwy gaffael ffurfiau amgen o ynni. |
| Cynaliadwyedd asedau: yr angen i asedau fod yn gynaliadwy er mwyn cefnogi perfformiad gwasanaethau trên | Gwaith adnewyddu asedau yn seiliedig ar risg, megis buddsoddi mewn gwella cydnerthedd y llinell uwchben. Buddsoddi mewn gwaith i addasu asedau er mwyn ymdopi â'r tywydd a newid hinsawdd |

# Llywodraethu a sicrwydd

Mae gennym Fframwaith Galluogi rhanbarthol sy'n pennu'r ffordd yr ydym yn cynllunio, llywodraethu a sicrhau gwaith cyflenwi yn ein rhanbarth. Mae gennym fodel sicrwydd tair llinell i ddisgrifio'r berthynas rhwng y rolau a'r gweithgareddau sy'n cyflenwi cynnyrch a gwasanaethau, yn rhoi arbenigedd ar reoli risg, ac yn dilysu'n annibynnol effeithiolrwydd ein prosesau:

- Lefel 1: sicrwydd rheolwyr
- Lefel 2: sicrwydd swyddogaethol a throsolwg corfforaethol
- Lefel 3: archwilio mewnol ac allanol.

Mae gennym gyfres fanwl o gyfarfodydd adolygu rhanbarthol i fonitro ein gwaith cyflenwi ac i amddiffyn y gwerth rydym yn ceisio ei greu i'n teithwyr a'n rhanddeiliaid.

Mae ein Cynlluniau Cyflenwi wedi'u sicrhau a'u llywodraethu trwy gyfres o adolygiadau haenog mewnol a ymwreiddiwyd yn fframwaith sicrwydd sefydlog y cyflwyniadau o'n rhagolygon cynllunio busnes treigl. Maent yn cynnwys adolygiadau swyddogaethol (gan gynnwys rheoli asedau a chynnal a chadw) yn y gwaith o baratoi'r cyflwyniad, adolygiadau o'r cyflwyniad ar ei wedd derfynol gan weithrediaethau rhanbarthol y swyddogaethau, ac adolygiad o'r cyflwyniad cyfan gan y rheolwr cyfarwyddwr rhanbarthol.

Caiff cylch gwaith adnewyddu'r holl asedau a'u parodrwydd ar gyfer awdurdod ariannol eu monitro a'u sicrhau trwy adolygiadau busnes cyfnodol, gan annog cydweithredu rhwng timau asedau a phartneriaid cyflenwi er mwyn sicrhau lefelau parodrwydd priodol. Caiff y gwaith o sicrhau'r gallu i gyflenwi ei gynnal yn flynyddol fel gweithgaredd sicrwydd Lefel 1 yn y rhanbarth ac ymarfer adolygu gan gymheiriaid Lefel 2 rhwng y rhanbarthau a'r Awdurdod Technegol. Mae'r gwaith hwn i sicrhau'r gallu i gyflenwi yn ymestyn ar draws Cyfnod Rheoli 6 a Chyfnod Rheoli 7 yn y sicrwydd lefel hyder (yn erbyn ffactorau amrywiol) canrannol meintiol a sesiwn adolygu meintiol gan gymheiriaid yn genedlaethol.

Yn ystod gwaith datblygu cynllun Cyfnod Rheoli 7, cafodd ein cynlluniau eu craffu gan swyddogaeth Archwilio Mewnol Network Rail hefyd, a thrwy adolygiadau gan Swyddfa Rheoleiddio'r Rheilffyrdd / Adroddwr Annibynnol. Rhoddodd ein panel herio gan randdeiliaid adolygiadau ac adborth trwy gydol ein proses cynllunio, gan gynnwys adolygu cyflwyniad ein Cynllun Busnes Strategol drafft, a datblygu asesiad annibynnol o'n cynllun terfynol.

Mae ein cynlluniau wedi'u seilio ar nifer o ragdybiaethau allweddol:

- Dim ond gwelliannau a gafodd Penderfyniad Buddsoddi Terfynol llwyddiannus sy'n cael eu hystyried o ran eu heffaith ar ein Cynllun Cyflenwi
- Bydd HS2 yn ariannu unrhyw fesurau lliniaru sydd eu hangen yn ystod gwaith adeiladu gorsaf Old Oak Common
- Mae rhagolygon effeithiau HS2 ar berfformiad yn seiliedig ar gwmpas ac amserlenni Cam 1 a Cham 2a HS2 yn unol â'r cyhoeddiadau cyhoeddus blaenorol (h.y. wedi'u halinio i'r ddogfen "HS2 Chairman's Stocktake"), hyd nes yr asesir effaith penderfyniadau'r llywodraeth ar HS2
- Mae'r galw gan deithwyr (niferoedd o bobl) yn unol â rhagolwg Mai 2023 yr Adran Drafnidiaeth, sef cyrraedd 95 % o niferoedd 2019/20 erbyn 2028/29
- Nifer y milltiroedd a deithiwyd gan drenau teithwyr i gynyddu 5 %, cynnydd yn nhwf trenau nwyddau yn unol â'r amcanestyniadau (6.9 % o filltiroedd tunnell rhanbarth Cymru a

Gorllewin Lloegr). Ni fydd hyn yn golygu newidiadau i gategorïau trac / galluogrwydd y rhwydwaith ac felly gellir ei gynnwys o fewn y cwmpas gwaith presennol.

- Ni wnaethpwyd unrhyw ragdybiaethau ynghylch effeithiau cynyddrannol neu leihaol disgwyliedig y newidiadau sy'n gysylltiedig â diwygio'r diwydiant, ac ni ddarparwyd ar eu cyfer.

# Gwaith cyflenwi ar gyfer y flwyddyn i ddod (2024/25)

Wrth inni ddechrau Cyfnod Rheoli pum-mlynedd newydd (Cyfnod Rheoli 7), rydym yn creu rheilffordd symlach a gwell i'r cwsmeriaid sy'n ei defnyddio a'n cydweithwyr sy'n gweithio ynddi. Byddwn yn gwneud hynny trwy fod ar ochr y teithwyr bob amser: yn meddwl yn debyg iddynt ac yn gweithredu er eu lles pennaf. Byddwn yn gweithio'n galed i greu ffyrdd symlach o gyrraedd y nod ac o sicrhau ei fod yn haws i weithio gyda ni i gyflawni'r canlyniad cywir. A lle bo'n bosibl, byddwn yn gweithredu fel y tîm sy'n dangos y ffordd i weddill y diwydiant o ran rhoi teithwyr yn gyntaf.

Bu'r 12 mis diwethaf yn heriol a gwyddom fod gennym waith i'w wneud yn ailadeiladu hyder ein rhanddeiliaid a'r rhai sy'n defnyddio ein rheilffordd. Gwyddom nad yw'r lefelau dibynadwyedd heb fod cystal ag y byddem ni, na'n cwsmeriaid, yn eu disgwyl, ond rydym ni'n mynd i droi'r sefyllfa ar ei phen.

Mae ein haddewid ar gyfer eleni yn ymwneud â chyflenwi ein cynllun. Mae ein cynllun yn cynnwys ein ffyrdd o wella'n seilwaith, sut y byddwn yn ymateb i heriau, sut y byddwn yn fwy effeithlon a sut y byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y diwydiant – er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau i'r rhai sy'n dibynnu ar ein rheilffordd. Byddwn yn mesur i ba raddau yr ydym yn cyflawni'r hyn mae ein cwsmeriaid yn ei werthfawrogi trwy ein cerdyn sgôr.

Mae gan ein cynllun ar gyfer 2024/25 ddwy brif thema: gwella perfformiad yng nghoridor hollbwysig Dyffryn Tafwys trwy Brosiect Brunel, a chryfhau ein strategaeth ddatganoli lleol, gan rymuso timau lleol i weithio fel un tîm gyda chwsmeriaid trenau a chwsmeriaid trenau nwyddau er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau posibl i gwsmeriaid ar draws ein rhwydwaith - i ddod o hyd i ffyrdd symlach o gyflawni canlyniadau gwell trwy weithio fel tîm a dileu gwastraff o'r system.

**Datganoli lleol**

Mae rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr wedi gweithredu strategaeth o ddatganoli lleol yn ystod Cyfnod Rheoli 6, gan greu timau rheilffordd lleol yn Nyfnaint a Chernyw, a Cambrian. Grwpiau lleol o gydweithwyr ar draws Network Rail a'r cwmnïau trên yw'r timau hyn, sy'n gweithio gyda'i gilydd ar feysydd cyffredin: er mwyn ysgogi canlyniadau gwell i'w cwsmeriaid.

Yn ystod Cyfnod Rheoli 7, byddwn yn bwrw ymlaen â'r strategaeth hon ac yn ei symud ymlaen o dreialon cynnar i'r "ffordd yr ydym yn gwneud busnes". Caiff mwy o dimau lleol, cydgysylltiedig eu creu ar draws y ddau lwybr a bydd y timau hyn yn uno i gyflawni'r canlyniadau sydd eu hangen ar eu rhan nhw o'r rheilffordd: boed yn lefelau prydlondeb, dibynadwyedd, cyflawni prosiectau neu dargedau ariannol.

Rydym yn bwrw ymlaen â'r newid hwn gan ein bod yn credu mewn creu timau lleol cryf sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws terfynau swyddogaethau. Credwn fod gan ein cydweithwyr y syniadau gorau ar gyfer datgloi gwerth i gwsmeriaid ac felly gall yr ymagwedd hon helpu i ddod â'r broses o wneud penderfyniadau'n llawer agosach i'r timau hynny ac yn y pendraw, y teithwyr a'r cwsmeriaid nwyddau a wasanaethir ganddynt.

Rhoddir targedau i bob tîm rheilffordd lleol, sy'n trosglwyddo i fyny at lefelau llwybr a rhanbarth, gan wneud canlyniadau'r lefelau hynny'n fwy ystyrlon i dimau lleol, ac yn eu hannog nhw i weithio gyda'u cydweithwyr lleol o dimau eraill i gyrraedd yr un targedau a rennir. Cânt eu trin fel busnesau bach, a'u grymuso i wneud y penderfyniadau o ran cyfnewid sydd eu hangen i gyflawni'r canlyniadau gorau i'w cwsmeriaid, y rhanddeiliaid a'r trethdalwyr.

Mae targedau 2024/25 ein hamcanion strategol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u nodi isod. Byddwn yn monitro'r gwaith cyflenwi yn erbyn y rhain drwy gydol y flwyddyn trwy ein gwaith monitro ar lefel busnes a lefel gweithrediaeth. Byddwn hefyd yn cytuno ar gardiau sgôr i gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni ein hamcanion, gan ganolbwyntio'n dactegol ar feysydd allweddol yn y flwyddyn nesaf, a phennu ystodau targed yn gysylltiedig â'n cyflogau sy'n seiliedig ar berfformiad. Lle bo'n briodol, gallai rhai o dargedau'r cerdyn sgôr anelu at gyflawni mwy na'n llinell sylfaen rheoleiddiol, neu bennu trywydd i adfer perfformiad sydd islaw llinellau sylfaen.

| | | Targed 2024/25 |
|---|---|---|
| Diogelwch | Marwolaethau ac Anafiadau a Bwysolwyd | 0.079 |
| | Lleihau Risg o Ddamwain Trên (TARR) | 95% |
| | Atebolrwydd Personol am Ddiogelwch (PAFS) | 125 |
| Cyflenwi Gwasanaethau Trên | Trenau i Deithwyr Ar Amser | 60.4% |
| | Canslo Trenau i Deithwyr | 3.8% |
| | Canslo Trenau Nwyddau | 2.1% |
| | Twf yn Nifer Trenau Nwyddau (o ddiwedd Cyfnod Rheoli 6) | 1.4% |
| Cwsmeriaid a chymunedau | Boddhad teithwyr | 7.78 |
| Effeithlonrwydd | Effeithlonrwydd gweithredol (£ miliwn) | 11 |
| | Effeithlonrwydd cyfalaf (£ miliwn) | 25 |
| | Mesur Perfformiad Ariannol (£) | 0 |
| Twf Cynaliadwy | Lleihad carbon Cwmpas 1 a 2 | -2.0% |
| | Ennill unedau bioamrywiaeth net | 0.0% |
| Pobl | Ymgysylltu â chyflogeion | 49% |

NetworkRail

# Dros Reilffordd Well

Cymru a
Gorllewin Lloegr